



# Rheoli Meddyginiaethau mewn Ysbytai Acíwt **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod dogfen:** 295A2015

# Statws yr adroddiad

---

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi i'w defnyddio'n fewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod o dan adran 45 yn egluro'r arferion ar gyfer trafod ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@archwilio.cymru](mailto:infoofficer@archwilio.cymru)

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Tracey Davies, Stephen Lisle, Elaine Matthews, Stephen Pittey a Nigel Blewitt.

# Cynnwys

---

Er bod agweddau da ar y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau, y perthnasoedd ar wardiau a dysgu, mae gwendidau mewn trefniadau corfforaethol a monitro ar berfformiad. Mae materion i'w hystyried hefyd yng nghyswllt cyfleusterau, trosglwyddo gwybodaeth, amrywiadau o ran perfformiad rhwng safleoedd a helpu pobl i gymryd eu meddyginiaethau.

---

## Adroddiad cryno

Cefndir	4
Y prif ganfyddiadau	6
Argymhellion	8

---

## Adroddiad manwl

<b>Rhan 1. Trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau:</b> Mae rhai gwendidau mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a all fod yn rhwystr rhag sicrhau goruchwyliaeth a chynllunio strategol digonol	10
<b>Rhan 2. Y gweithlu rheoli meddyginiaethau:</b> Mae pwysau neilltuol ar wasanaethau fferyllol ac er bod y gwasanaethau'n ymatebol a'r perthnasoedd yn dda at ei gilydd, mae amrywiadau rhwng safleoedd ac mae angen rhoi mwy o sylw i anghenion hyfforddi	15
<b>Rhan 3. Cyfleusterau rheoli meddyginiaethau:</b> Mae'r cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol gan mwyaf ond mae materion i'w hystyried yng nghyswllt rheoli tymheredd a storio meddyginiaethau mewn wardiau. Mae diffygion yn yr holl unedau aseptic er bod risgiau neilltuol yn Ysbyty Glangwili	26
<b>Rhan 4. Prosesau rheoli meddyginiaethau:</b> Mae rhai agweddau da ar y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau ond mae risgiau yng nghyswllt trosglwyddo gwybodaeth rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, amrywiadau rhwng safleoedd a helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n briodol	32
<b>Rhan 5. Monitro gwasanaethau fferyllol:</b> Mae gwendidau mewn trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ar reoli meddyginiaethau ac mae staff fferyllol yn gorfod ymyrryd yn amlach na'r cyfartaledd i sicrhau diogelwch er bod trefniadau da at ei gilydd ar gyfer dysgu gwersi pan aiff pethau o chwith	46

---

## Atodiadau

Methodoleg	53
------------	----

---

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1. Yr ymyriad therapiwtig mwyaf cyffredin yn y GIG yw rhagnodi meddyginiaethau.<sup>1</sup> Yn 2013-14, gwariodd cyrff iechyd Cymru £258 miliwn ar brynu cyffuriau (wyth y cant yn fwy nag yn 2012-13)<sup>2</sup>.
2. Mae 'rheoli meddyginiaethau' yn cwmpasu mwy o lawer na phrynu cyffuriau. Mae'r term yn cwmpasu'r holl brosesau ac ymddygiadau sy'n dylanwadu ar y defnydd clinigol a chosteffeithiol o feddyginiaethau yn ogystal â chanlyniadau cadarnhaol i gleifion.
3. Mae angen rheoli meddyginiaethau cleifion yn dda er mwyn sicrhau'r driniaeth ac ymadfer gorau posibl iddynt a gofalu bod eu meddyginiaeth yn rhoi'r gwerth gorau am arian. Yn **Arddangosyn 1** gwelir prif ffynonellau'r niwed i gleifion o ganlyniad i reoli meddyginiaethau'n wael.

### Arddangosyn 1: Ffeithiau allweddol am dair prif ffynhonnell y niwed o feddyginiaethau



*Ffynhonnell: Mae'r troednodiadau'n cynnwys ffynonellau'r data ar adweithiau niweidiol<sup>3</sup>, gwallau rhagnodi<sup>4</sup> a diffyg cydymffurfio<sup>5,6</sup>*

<sup>1</sup> 1000 o Fywydau a Mwy – [www.1000livesplus.wales.nhs.uk/medicines](http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/medicines)

<sup>2</sup> Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni ariannol y GIG, gan gynnwys gwariant mewn gofal sylfaenol ac eilaidd.

<sup>3</sup> Pirmohamed et al, *Adverse drug reactions as cause of admission to hospital: prospective analysis of 18820 patients*, British Medical Journal, 2004; 329(7456), 15-19.

<sup>4</sup> Lewis et al, *Prevalence, incidence and nature of prescribing errors in hospital inpatients: a systematic review*, Drug Saf 2009; 32:379-89.

<sup>5</sup> 1000 o Fywydau a Mwy, *Achieving prudent healthcare in NHS Wales*, Mehefin 2014.

- 
4. Ym Mai 2014, mewn adolygiad annibynnol<sup>7</sup> ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o'r enw *Ymddiried mewn Gofal* (Adroddiad Andrews), tynnwyd sylw at broblemau difrifol yng nghyswllt gweinyddu a chofnodi meddyginiaethau. Ar ôl cyhoeddi *Ymddiried mewn Gofal*, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol orchymyn i gynnal hapwiriadau dirybudd mewn 20 o ysbytai ledled Cymru. Y prif ganfyddiadau o'r hapwiriadau oedd bod angen gwella safonau ar gyfer rhoi meddyginiaethau, storio meddyginiaethau a llenwi siartiau meddyginiaeth.
  5. Roedd *Ymddiried mewn Gofal* hefyd yn pwysleisio ei bod yn bwysig bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o bob math yn cydweithio i reoli meddyginiaethau cleifion. Mae staff fferyllol yn ganolog yn y broses o reoli meddyginiaethau ond mae rhan bwysig i'w chwarae gan staff o bob disgyblaeth, fel y mae canllawiau gan gyrrff cynrychiadol yn egluro<sup>8,9</sup>. Mae angen grymuso cleifion hefyd i'w helpu i gael y budd mwyaf o'u meddyginiaeth.
  6. Rhagnodi darbodus ar feddyginiaethau yw un o'r prif feysydd sy'n cael sylw yn agenda 'gofal iechyd darbodus' Llywodraeth Cymru. Egwyddorion gofal iechyd darbodus yw osgoi gwneud niwed i'r graddau mwyaf posibl, cyflawni'r ymyriad lleiaf sy'n briodol a hyrwyddo tegwch rhwng pobl sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau. Felly mae'r agweddau allweddol ar ragnodi darbodus yn ymwneud â rhagnodi diogel sy'n lleihau adweithiau niweidiol i gyffuriau, rhagnodi cadwrol fel na fydd cleifion yn cymryd meddyginiaethau'n ddiangen, a chynnwys cleifion ym mhob agwedd ar benderfyniadau am eu gofal eu hunain.
  7. Mae'r agenda ar reoli meddyginiaethau'n newid yn gyflym oherwydd technolegau newydd, cyffuriau newydd, ac ailgynllunio gwasanaethau. Gan mai gwariant ar feddyginiaethau yw un o'r prif feysydd gwariant yn y GIG, mae cyni hefyd yn sbarduno newid yn y rheolaeth ar feddyginiaethau, wrth i sefydliadau ailedrych ar lwybrau triniaeth i sicrhau bod triniaethau clinigol briodol a chosteffeithiol yn cael eu darparu ar yr amser cywir. Am y rhesymau hyn, rydym yn credu bod hwn yn amser priodol i edrych ar y materion sy'n codi ledled Cymru.
  8. Mae'r astudiaeth hon yn dilyn ein gwaith archwilio lleol blaenorol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol. Mae'n canolbwyntio ar agweddau ar reoli meddyginiaethau sy'n cael effaith uniongyrchol ar gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt. Rydym yn trafod gwybodaeth am feddyginiaethau sy'n cael ei darparu gan feddygon teulu ar gyfer derbyn cleifion, adolygiadau o feddyginiaethau y mae cleifion yn eu cael yn ystod eu harosiad, y cymorth y mae cleifion yn ei gael i gymryd eu meddyginiaethau a'r trefniadau i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n dda ar ôl rhyddhau cleifion. Nid ydym wedi trafod caffael ac nid ydym wedi ymdrin yn helaeth â chyflenwi meddyginiaethau.
  9. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at y sefyllfa ar safleoedd ysbyty a ddewiswyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) ac rydym hefyd yn cyflwyno data o gyfres o ymweliadau â wardiau ac adolygiadau o gleifion a gynhaliwyd mewn sampl o wardiau a oedd wedi'u dewis yn ofalus drwy ein methodoleg. Wrth adolygu'r wybodaeth hon, mae'n bwysig nodi bod ein canfyddiadau'n ymwneud ag agweddau penodol ar y rheolaeth ar feddyginiaethau a archwiliwyd gennym ar adeg benodol. Mae manylion llawn am ein methodoleg yn [Atodiad 1](#).

---

<sup>6</sup> Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, *From Compliance to Concordance – Achieving Partnership in Medicine-Taking*, RPSGB, London, 1997. Shapps, Grant, *A bitter pill to swallow: A report into the cost of wasted medicine in the NHS*, Mehefin 2007.

<sup>7</sup> Yr Athro June Andrews, Mark Butler, *Ymddiried mewn gofal: Adolygiad annibynnol o Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg*, Mai 2014.

<sup>8</sup> Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, *Standards for Medicines Management*.

<sup>9</sup> Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, *Good practice in prescribing and managing medicines and devices*, 31 Ionawr 2013.

- 
10. Yn y Bwrdd Iechyd roedd ein hadolygiad yn ceisio cael ateb i'r cwestiwn canlynol: **A oes trefniadau diogel, effeithlon ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau cleifion mewnol mewn ysbytai aciwt?**
  11. Mae'r prif ganfyddiadau o'n gwaith wedi'u nodi isod ac yn cael eu hystyried ymhellach yn yr adran fanylach o'r adroddiad.

## Y prif ganfyddiadau

12. Ein casgliad cyffredinol yw: **Er bod agweddau da ar y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau, y perthnasoedd ar wardiau a dysgu, mae gwendidau mewn trefniadau corfforaethol a monitro ar berfformiad. Mae materion i'w hystyried hefyd yng nghyswllt cyfleusterau, trosglwyddo gwybodaeth, amrywiadau o ran perfformiad rhwng safleoedd a helpu pobl i gymryd eu meddyginiaethau.** Mae'r tabl isod yn dangos ein prif ganfyddiadau'n fwy manwl:

**Trefniadau corfforaethol:** Mae rhai gwendidau mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a all fod yn rhwystr rhag sicrhau goruchwyliaeth a chynllunio strategol digonol.

- Mae'r newidiadau aml mewn arweinyddiaeth uwch yn peri risg i'r gallu i reoli meddyginiaethau'n well er bod arweinwyr fferylliaeth sirol yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth ar lefel leol.
- Er bod strategaeth integredig ar gyfer rheoli meddyginiaethau, mae angen ei diweddarau'n awr drwy broses sy'n sicrhau mwy o ymgynghori â staff fferyllol.
- Yn yr un modd â byrddau iechyd eraill, mae'r rhan y mae'r tîm fferylliaeth yn ei chwarae mewn fforymau penderfynu uwch yn gyfyngedig ac oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau yn y tîm nid yw'n ymwneud yn gyson â datblygu gwasanaethau.
- Ceir monitro a chraffu rheolaidd ar wybodaeth ariannol ond mae'r cynllun arbedion ar reoli meddyginiaethau'n tanberfformio.
- Nid yw paneli ceisiadau cyllido cleifion unigol yn cwrdd â gofynion cenedlaethol gan nad oes aelod lleyg arnynt ac nid yw ceisiadau'n cael eu llofnodi cyn cyfarfodydd y paneli.

**Gweithlu:** Mae pwysau neilltuo ar wasanaethau fferyllol ac er bod y gwasanaethau'n ymatebol a'r perthnasoedd yn dda at ei gilydd, mae amrywiadau rhwng safleoedd ac mae angen rhoi mwy o sylw i anghenion hyfforddi.

- Er bod proffil staffio'r gwasanaethau fferyllol yn debyg i weddill Cymru, mae'r pwysau presennol ar y tîm fferylliaeth yn arwain at flaenoriaethu gwasanaethau i grwpiau cleifion penodol.
- Mae'r tîm fferylliaeth yn gymharol anfodlon ar lefel yr hyfforddiant y mae'n ei gael, dim ond un aelod o'r tîm sy'n cael ei hyfforddi mewn methodolegau gwella ac nid oes adnoddau fferyllol wedi'u neilltuo ar gyfer hyfforddiant meddygol a nyrsio.
- Mae'n ymddangos bod y perthnasoedd ar y wardiau'n dda er bod nifer y wardiau yn y Bwrdd Iechyd lle mae technegydd penodol yn is na'r cyfartaledd a bod rhai mesurau o fferylliaeth mewn wardiau'n amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd.
- Mae gwasanaethau fferyllol yn hygyrch ac ymatebol ar y cyfan er bod lle i wella y tu allan i oriau gweithio arferol ac mae penderfyniad i'w wneud ynghylch a fydd fferyllfeydd yn cael eu hagor ar ddydd Sul.

**Cyfleusterau:** Mae'r cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol gan mwyaf ond mae materion i'w hystyried yng nghyswllt rheoli tymheredd a storio meddyginiaethau mewn wardiau. Mae diffygion yn yr holl unedau aseptic er bod risgiau neilltuol yn Ysbyty Glangwili.

- Mae'r cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r prif ofynion gan mwyaf er bod materion i'w hystyried o ran rheoli tymheredd yn ysbytai Glangwili a Llwynhelyg.
- Mae adroddiadau archwilio allanol wedi tynnu sylw at ddiffygion yn yr holl unedau aseptic, ac at risgiau neilltuol yn Ysbyty Glangwili ac, yn yr un modd â gweddill Cymru, nid yw'r paratoi ar feddyginiaethau i'w chwistrellu ar y wardiau'n cael ei archwilio'n rheolaidd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ymdrin â materion sy'n ymwneud â storio ac oeri meddyginiaethau ar y wardiau a oedd wedi'u nodi yn hapwiriadau *Ymddiried mewn Iechyd*.

**Prosesau:** Mae rhai agweddau da ar y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau ond mae risgiau yng nghyswllt trosglwyddo gwybodaeth rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, amrywiadau rhwng safleoedd a helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n briodol.

- Mae trosglwyddo gwael ar wybodaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn peri risgiau i ddiogelwch ac aneffeithlonrwydd ac mae ansawdd gwybodaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd.
- Mae amseroldeb y cysoni ar feddyginiaethau'n dda ar y cyfan ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd ac mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael adolygiad cynhwysfawr er bod y cyfraddau'n is yn Ysbyty Glangwili.
- Roedd siartiau cyffuriau safonol gan yr holl gleifion yn ein sampl ac roedd eu statws alergedd wedi'i gofnodi er bod y timau fferylliaeth wedi diweddarau'r statws alergedd yn achos pump o bob 100 o'r cleifion a adolygwyd.
- Mae prosesau llyfr fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd yn gyson at ei gilydd â gweddill Cymru a dywedodd meddygon wrthym ei bod yn haws cael gafael ar gopiâu caled o Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar y wardiau na chopïau electronig.
- Byddai rhagnodi electronig yn gallu dod â manteision amrywiol o ran diogelwch ac effeithlonrwydd ond nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ward mewn ysbyty aciwt.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd ddata cymharol dda am ragnodwyr anfeddygol ond nid yw staff fferyllol yn rhagnodi'n rheolaidd ac mae lle i gryfhau'r fframwaith polisi mewn perthynas â rhagnodi anfeddygol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau'n syth mewn ymateb i *Ymddiried mewn Gofal* ac Ysbyty'r Tywysog Philip oedd yr unig safle yn y Bwrdd Iechyd lle cawsom siartiau cyffuriau nad oeddent yn dangos yn glir a oedd dos wedi'i roi.
- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o lawer i asesu anghenion cleifion o ran cydymffurfio â chyfarwyddiadau ac i addysgu a helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n briodol.
- Mae risgiau i ddiogelwch ac aneffeithlonrwydd yn gysylltiedig â chyfnewid gwael ar wybodaeth wrth ryddhau cleifion er bod nifer yr adolygiadau o feddyginiaeth wrth ryddhau'n uwch na'r cyfartaledd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau da o sawl math i wella'r defnydd o feddyginiaethau gwrthficrobaidd.

**Monitro:** Mae gwendidau mewn trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ar reoli meddyginiaethau ac mae staff fferyllol yn gorfod ymyrryd yn amlach na'r cyfartaledd i sicrhau diogelwch er bod trefniadau da at ei gilydd ar gyfer dysgu gwersi pan aiff pethau o chwith.

- Mae lle i gryfhau'r adrodd ar berfformiad drwy bennu a monitro dangosyddion perfformiad allweddol, meincnodi ac ystyried perfformiad yn fwy rheolaidd ar lefel pwyllgorau'r Bwrdd.
- O'i gymharu â gweddill Cymru, mae'r tîm fferylliaeth yn gorfod ymyrryd yn amlach i sicrhau diogelwch ynghylch meddyginiaeth cleifion.
- Mae prosesau da ar waith ar y cyfan i ddysgu gwersi ar ôl gwallau mewn meddyginiaeth a methiant mewn systemau sy'n ymwneud â meddyginiaethau er ein bod wedi ein hysbysu bod rhai mathau o ddiogyddiadau nad ydynt yn cael eu cofnodi.



---

## Argymhellion

A1 **Trefniadau corfforaethol:** Mewn perthynas â Rhan 1 o'r adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- Cwblhau ac egluro ar frys y trefniadau atebolrwydd gweithredol ar gyfer rheoli meddyginiaethau.
- Diweddarau ei Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau i ddarparu gweledigaeth integredig ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, sy'n cael ei datblygu drwy bartneriaeth lawn rhwng staff fferyllol, meddygol a nyrsio.
- Creu gweithdrefn weithredu safonol sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r tîm fferylliaeth a'i gynnwys yn ystod y camau cynnar wrth gynllunio unrhyw newid mewn gwasanaeth.
- Sicrhau bod paneli ceisiadau cyllido cleifion unigol yn cynnwys dau aelod lleyg a bod yr holl geisiadau'n cael eu llofnodi gan arweinydd clinigol neu bennaeth adran cyn y cyfarfodydd.

A2 **Gweithlu:** Mewn perthynas â Rhan 2 o'r adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- Cynnal adolygiad o'i flaenoriaethu cyfredol ar wasanaethau fferyllol i'w sicrhau ei hun bod ansawdd a chwmpas y gwasanaethau'n cael eu cynnal yn ddigonol.
- Sicrhau bod cyfran fwy o'i staff fferyllol wedi'u hyfforddi mewn methodolegau gwella ansawdd.
- Gwneud mwy o waith gyda'i staff fferyllol i ddeall eu hanfodlonrwydd ar lefelau hyfforddi.
- Asesu a yw gwasanaethau fferyllol yn rhoi digon o gefnogaeth i hyfforddi staff meddygol a nyrsio.

A3 **Cyfleusterau:** Mewn perthynas â Rhan 3 o'r adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- Lleihau'r risgiau presennol o ran y gyfraith a diogelwch sy'n gysylltiedig â swmpstorio hylifau mewnwythiennol ac eitemau swmpus eraill yn ysbytai Glangwili a Llwynhelyg drwy sicrhau bod yr eitemau hyn yn cael eu storio mewn manau lle mae'r tymheredd wedi'i reoleiddio.
- Datblygu arfarniad o opsiynau wedi'u costio i ymdrin yn llawn â'r diffygion yn ei unedau aseptic.
- Rhoi rhaglen archwilio reolaidd ar waith ar baratoi meddyginiaethau i'w chwistrellu ar y wardiau.
- Datblygu cynllun wedi'i gostio sy'n seiliedig ar amserlen i ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â storio meddyginiaethau ar wardiau a godwyd yn *Ymddiried mewn Gofal*.

A4 **Prosesau:** Mewn perthynas â Rhan 4 o'r adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- Gosod amserlen glir a chynllun ariannu ar gyfer cyflwyno rhagnodi electronig ar gyfer cleifion mewnol a dulliau electronig ar gyfer rhyddhau cleifion ac ehangu'r gallu i gael mynediad at y Cofnod Iechyd Unigol (CIU).
- Cyflawni mwy o waith ar asesu/gwella ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan feddygon teulu ar gyfer derbyn cleifion.
- Dysgu gwersi o'r gwaith cenedlaethol ar Ragnodi Darbodus er mwyn datblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn rhoi mwy o sylw i adnabod anghenion cleifion o ran cydymffurfio â chyfarwyddiadau, addysgu/cwnsela cleifion, gwella gwybodaeth am feddyginiaethau a helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n briodol.



---

A5 **Monitro:** Mewn perthynas â Rhan 5 o'r adroddiad, dylai'r Bwrdd Iechyd:

- a. Gosod amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn ysbytai a'u monitro'n rheolaidd a chydweithio â byrddau iechyd eraill i feincnodi perfformiad yn rheolaidd.
- b. Cyflawni dadansoddiad pellach o gyfradd yr ymyriadau diogelwch gan ei fferyllwyr i ganfod yr achosion sylfaenol a phenderfynu a ddylid dargyfeirio mwy o adnoddau i atal gwallau a gwallau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, yn hytrach na'u cywiro ar ôl eu cyflawni.
- c. Adolygu'r gostyngiad yn nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau er 2008 i'w sicrhau ei hun bod y duedd yn adlewyrchu gwelliant mewn lefelau diogelwch yn hytrach na llai o barodrwydd i gofnodi digwyddiadau, gan ystyried y farn a fynegwyd gan rai staff fod rhai digwyddiadau nad ydynt yn cael eu cofnodi.
- d. Ailedrych ar y trefniadau ar gyfer y Grŵp Adolygu Digwyddiadau Meddyginiaeth gyda'r amcan o gynnwys mwy o staff meddygol.

# Rhan 1

---

## Trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau

Mae rhai gwendidau mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a all fod yn rhwystr rhag sicrhau goruchwyliaeth a chynllunio strategol digonol

### Strwythurau arweinyddiaeth ac atebolrwydd


Mae'r newidiadau aml mewn arweinyddiaeth uwch yn peri risg i'r gallu i reoli meddyginiaethau'n well er bod arweinwyr fferylliaeth sirol yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth ar lefel leol

13. Mae arweinyddiaeth effeithiol a llinellau atebolrwydd clir yn elfennau hanfodol ym mhob gwasanaeth gofal iechyd. Mae rheoli meddyginiaethau'n faes lled gymhleth gan ei fod yn cwmpasu gwasanaethau a phrosesau sy'n ymwneud â staff fferyllol, nyrsio a meddygol. Er hynny, mae'n bwysig bod llinellau atebolrwydd a strwythurau clir ar gyfer uwch swyddogion.
14. Hyd yn ddiweddar, y Cyfarwyddwr Meddygol oedd â'r atebolrwydd gweithredol dros reoli meddyginiaethau ond y Prif Swyddog Gweithredu sy'n atebol am hyn bellach. Mae Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau yn adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredu. Mae gan bob un o'r tair sir Arweinydd Sirol (Pennaeth Fferylliaeth) sy'n atebol mewn materion rheoli i'w Gyfarwyddwr Sirol ac mewn materion proffesiynol i Bennaeth Rheoli Meddyginiaethau. Dywedodd rhai a gyfwelwyd fod y trefniant hwn wedi dod â rhai manteision am ei fod wedi cyfrannu at gynnydd ar integreiddio'r fferyllwyr gofal sylfaenol ac eilaidd â'r timau sirol. Fodd bynnag, am fod Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau wedi bod yn absennol dros gyfnod hir, cododd yr angen i uwch arweinwyr rheoli meddyginiaethau eraill gyflawni'r rôl uwch hon. Mae hyn wedi creu ansicrwydd ac ansefydlogrwydd er bod y Bwrdd Iechyd yn recriwtio'n awr i lenwi swydd wag Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau.
15. Cafwyd newid mewn strwythurau atebolrwydd ar adeg yr archwiliad fel bod gwasanaethau fferyllol mewn ysbytai wedi dod yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Acíwt o dan y Prif Swyddog Gweithredu. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn agored i'w newid ymhellach gan fod y Prif Weithredwr newydd yn ailystyried y strwythur sefydliadol ac y bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn gadael y Bwrdd Iechyd cyn hir. Nes bydd y trefniadau hyn wedi'u cwblhau, bydd risgiau'n gysylltiedig ag amharu ac ansicrwydd yn yr arweinyddiaeth dros reoli meddyginiaethau.
16. Yn *Professional Standards for Hospital Pharmacy Services*<sup>10</sup> (y Safonau) nodir bod y gwasanaeth fferyllol i fod â llinellau cyfrifoldeb clir mewn materion proffesiynol a sefydliadol. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos bod 69 y cant o staff fferyllol yn ein harolwg ledled Cymru yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod 'llinellau atebolrwydd clir yn y tîm fferylliaeth'. Y ffigur cyfatebol yn y Bwrdd Iechyd oedd 62 y cant, ac mae hynny'n awgrymu bod cyfle i egluro llinellau atebolrwydd ymhellach yn nhîm fferylliaeth y Bwrdd Iechyd.

---

<sup>10</sup> Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, *Professional Standards for Hospital Pharmacy Services*, Gorffennaf 2012.

Arddangosyn 2: Roedd staff fferyllol y Bwrdd Iechyd yn cytuno gan mwyaf â'r datganiad bod 'llinellau atebolrwydd clir yn y tîm fferylliaeth' er bod y cytundeb ychydig yn gryfach ledled Cymru



*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferyllol*

17. Mae'r Safonau'n nodi hefyd fod cyrff iechyd i fod â gr p rheoli meddyginiaethau (GRhM) yn ganolbwynt ar gyfer datblygu polisi, gweithdrefnau a chanllawiau ar feddyginiaethau. Nodwyd yn ein hadroddiad ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol<sup>11</sup> fod y GRhM wedi'i sefydlu'n effeithiol yn is-bwyllgor i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a bod cysylltiadau rhyngddo â nifer o is-bwyllgorau pwysig eraill. Er hynny, roeddem wedi nodi bod bylchau yn ei aelodaeth a bod angen rhoi sylw i bresenoldeb a symleiddio ei lwyth gwaith ymhellach. Yn ystod ein harchwiliad diweddaraf, dywedwyd wrthym mewn cyfweiliadau fod y GRhM yn gweithio'n dda fel y fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau a bod y penderfyniadau'n cael eu cylchredeg yn gyflym ar draws y Bwrdd Iechyd.
18. Dylai'r GRhM fod yn amlddisgyblaethol er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod rheoli meddyginiaethau'n gyfrifoldeb i nifer o grwpiau proffesiynol clinigol. Staff nyrso yw 13 y cant o aelodaeth y GRhM (o'i gymharu â chyfartaledd o naw y cant ledled Cymru) a staff meddygol yw 33 y cant o'r aelodaeth (o'i gymharu â 46 y cant ledled Cymru). Ar hyn o bryd, mae pum meddyg yn cymryd rhan yn y GRhM, un ohonynt yn gadeirydd, ond maent yn ei chael yn anodd denu meddygon ysbty i'r GRhM o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae maes nyrso wedi'i gynrychioli ar lefel Cyfarwyddwr Cynorthwyol a hefyd gan y nyrso rheoli meddyginiaethau sy'n rhan o'r tîm fferylliaeth.

<sup>11</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, *Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol*: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Awst 2013.

---

## Strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau

Er bod strategaeth integredig ar gyfer rheoli meddyginiaethau, mae angen ei diweddarau'n awr drwy broses sy'n sicrhau mwy o ymgynghori â staff fferyllol

- 19.** Dylai'r Bwrdd Iechyd fod â gweledigaeth strategol glir ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Yn ein hadroddiad ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol, dywedwyd bod y Bwrdd Iechyd i'w ganmol am fod â strategaeth bum mlynedd ar gyfer fferylliaeth a rheoli meddyginiaethau sydd wedi'i hintegreiddio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Ochr yn ochr â'r strategaeth, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cefnogi camau a threfniadau monitro, er nad oedd cysylltiadau clir rhwng y cynlluniau rhagnodi blynyddol a'r strategaeth. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi diweddarau strategaeth 2011-2015 ers ei datblygu yn 2010 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen ailedrych ar y strategaeth yn awr. Nid oedd yn glir o'n harchwiliad sut yr oedd y camau gweithredu o'r strategaeth yn cael eu monitro. Mewn ymateb i'n cais am ddogfen, darparodd y Bwrdd Iechyd adroddiad i ni ar gamau gweithredu yn 2013 a 2014, y rhan fwyaf o lawer ohonynt yn cyfeirio at gymorth ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol. Nid yw'r camau gweithredu hyn yn ymwneud â'r strategaeth.
- 20.** Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybod i ni fod ei gynllun tymor canolig integredig ym Mawrth 2015 yn nodi opsiynau ar gyfer buddsoddi pellach i wella rheolaeth ar feddyginiaethau. Bydd y strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn cael ei diweddarau ar ôl penodi'r Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau newydd.
- 21.** Gwnaethom arolwg o staff fferyllol i ofyn eu barn am y strategaeth. Roedd y canlyniadau'n dangos bod 22 y cant o staff fferyllol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi'u cynnwys drwy ymgynghori a'u bod wedi gallu cyfrannu i'r strategaeth, o'i gymharu â 30 y cant ar gyfer Cymru. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod 49 y cant o staff fferyllol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod 'strategaeth effeithiol gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli meddyginiaethau', o'i gymharu â 66 y cant ar gyfer Cymru.

## Proffil a dylanwad y tîm fferylliaeth yn y bwrdd iechyd ehangach

Yn yr un modd â byrddau iechyd eraill, mae'r rhan y mae'r tîm fferylliaeth yn ei chwarae mewn fforymau penderfynu uwch yn gyfyngedig ac oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau yn y tîm nid yw'n ymwneud yn gyson â datblygu gwasanaethau

- 22.** Er mwyn i'r tîm fferylliaeth gael proffil a dylanwad digonol o fewn y Bwrdd Iechyd, dylai gael cynrychiolaeth ddigonol yn fforymau penderfynu uwch y Bwrdd Iechyd. Cawsom mai bwrdd iechyd Cwm Taf oedd yr unig fwrdd iechyd lle'r oedd y tîm fferylliaeth wedi'i gynrychioli ar y pwyllgor uchaf a oedd yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch. Nid oedd yr un o dimau fferylliaeth y byrddau iechyd wedi'i gynrychioli ar y pwyllgor uchaf sy'n gyfrifol am lywodraethu clinigol neu reoli risg. Ym mwrdd iechyd Hywel Dda nid oes gan y tîm fferylliaeth unrhyw gynrychiolaeth mewn unrhyw fforwm penderfynu uwch.
- 23.** Dylai'r tîm fferylliaeth allu dylanwadu hefyd ar gynllunio ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnwys meddyginiaethau. Y rheswm am hyn yw bod cyflwyno swyddi ymgynghorol, clinigau a gwasanaethau newydd yn sicr o effeithio ar y ffordd o ddarparu gwasanaethau fferyllol. Ledled Cymru cawsom mai dim ond i raddau bach y mae timau fferylliaeth yn ymwneud â newidiadau mewn gwasanaethau. Yn y Bwrdd Iechyd, mae'r tîm fferylliaeth yn ymwneud i ryw raddau â datblygu gwasanaethau newydd, er enghraifft y datblygiad blaen t yn Ysbyty'r Tywysog Philip, ond dywedwyd wrthym nad yw hyn yn digwydd yn gyson. Dywedodd staff fferyllol wrthym hefyd eu bod yn ei chael yn anodd cymryd rhan

---

mewn byrddau prosiect ar gyfer newid gwasanaethau oherwydd y pwysau presennol ar ddarparu gwasanaethau fferyllol.

## Rheolaeth ariannol ar reoli meddyginiaethau

### Ceir monitro a chraffu rheolaidd ar wybodaeth ariannol ond mae'r cynllun arbedion ar reoli meddyginiaethau'n tanberfformio

24. Adroddir ar wariant ar feddyginiaethau ym maes gofal eilaidd yn flynyddol i'r Bwrdd, yn chwarterol i'r tîm gweithredu ac yn ddeufisol i'r GRhM. Mae'r adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar reoli meddyginiaethau'n datgan mai oddeutu £90 miliwn yw'r gwariant ar feddyginiaethau, a bod tua 30 y cant o'r gwariant hwn ym maes gofal eilaidd. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig yn cwrdd bob yn ail fis ac yn cael adroddiadau ar wariant ac yn craffu ar y cynlluniau arbedion ar reoli meddyginiaethau.
25. Mae'r cynllun arbedion ar reoli meddyginiaethau'r Bwrdd lechyd yn cwmpasu gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Roedd y Bwrdd lechyd wedi bwriadu gwneud arbedion ar reoli meddyginiaethau o bron £1.24 miliwn yn 2014-15 ond yn Rhagfyr 2014 roedd yn rhag-weld arbedion ychydig llai o £1.05 miliwn. Ar 28 Chwefror 2015 roedd gorwariant o £2.9 miliwn ar y gyllideb meddyginiaethau gofal eilaidd ac roedd gorwariant o £3.2 miliwn wedi'i ragamcanu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn ddirywiad sy'n groes i'r duedd o'i gymharu â'r adroddiad chwe mis. Mae'r gwariant rhagamcanol ar feddyginiaethau gofal eilaidd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef £27.6 miliwn, yn £1.6 miliwn yn fwy na'r alldro ar gyfer 2013-14 o £25.95 miliwn.
26. Mewn ymateb i'n harolwg, roedd 33 y cant o staff fferyllol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Nid yw arbedion ariannol a wnaed mewn gwasanaethau fferyllol yn effeithio ar ganlyniadau cleifion' o'i gymharu â 38 y cant ledled Cymru. Er nad yw hyn ond yn adlewyrchu barn sampl o staff, gall awgrymu y dylai'r Bwrdd lechyd fyfyrto ynghylch a yw ei ymdrechion i wneud arbedion yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau.

## Ceisiadau cyllido cleifion unigol

### Nid yw paneli ceisiadau cyllido cleifion unigol yn cwrdd â gofynion cenedlaethol gan nad oes aelod lleyg arnynt ac nid yw ceisiadau'n cael eu llofnodi cyn cyfarfodydd y paneli

27. Fel arfer mae ceisiadau cyllido cleifion unigol (CCCU) yn geisiadau gan glinigwyr sydd am gael cymeradwyaeth gan fwrdd iechyd i ddefnyddio meddyginiaethau nad yw'r GIG fel arfer yn eu cyllido. Mae angen prosesau cadarn a phaneli CCCU effeithiol mewn byrddau iechyd i sicrhau penderfynu priodol ynghylch y ceisiadau hyn. Roedd adroddiad ar gyfer Cymru gyfan a gyhoeddwyd yn 2014 yn argymhell bod y paneli sy'n trafod CCCU yn cynnwys o leiaf ddau aelod lleyg, a bod ceisiadau'n cael eu sgrinio a'u llofnodi gan arweinydd clinigol neu bennaeth adran cyn cyfarfodydd.<sup>12</sup> Yn y Bwrdd lechyd, nid yw aelodau lleyg yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel CCCU er ei fod wedi rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o'u recriwtio. Mae'r Fferyllydd Arweiniol ar Ddatblygu Clinigol yn adolygu'r holl geisiadau ac mae Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau yn aelod o'r panel. Mae'r holl CCCU yn y

---

<sup>12</sup> Grŵp yr Adolygiad Cenedlaethol o'r Broses CCCU, *Review of the individual patient funding request process*, Ebrill 2014.

---

Bwrdd Iechyd yn cael eu sgrinio cyn cyfarfodydd y panel, ond nid yw ceisiadau'n cael eu llofnodi gan arweinydd clinigol neu bennaeth adran.

- 28.** Yn ystod 2013-14, roedd y panel CCCU yn y Bwrdd Iechyd wedi ystyried 62 o geisiadau ynghylch meddyginiaethau ac roedd hyn yn agos i'r cyfartaledd o 60 ar gyfer Cymru<sup>13</sup>. Roedd fferyllwyr/technegwyr y Bwrdd Iechyd yn treulio ychydig llai o amser ar gefnogi ac ymbresenoli yn y paneli hyn (156 o oriau o'i gymharu â'r cyfartaledd o 193 o oriau ar gyfer Cymru). Dywedodd staff fferyllol wrthym eu bod yn cynorthwyo meddygon ymgynghorol sy'n dymuno rhagnodi meddyginiaethau nad ydynt yn y llyfr fformiwlâu drwy eu harwain drwy'r broses CCCU.

---

<sup>13</sup> Nid yw bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi'i gynnwys yn y cyfartaledd ar gyfer Cymru: nid yw'r rhan fwyaf o'r ceisiadau ym mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cael eu rheoli drwy'r panel CCCU.

# Rhan 2

---

## Y gweithlu rheoli meddyginiaethau

Mae pwysau neilltuol ar wasanaethau fferyllol ac er bod y gwasanaethau'n ymatebol a'r perthnasoedd yn dda at ei gilydd, mae amrywiadau rhwng safleoedd ac mae angen rhoi mwy o sylw i anghenion hyfforddi

### Niferoedd staff a'r cymysgedd sgiliau

Er bod proffil staffio'r gwasanaethau fferyllol yn debyg i weddill Cymru, mae'r pwysau presennol ar y tîm fferylliaeth yn arwain at flaenoriaethu gwasanaethau i grwpiau cleifion penodol

29. Dylai timau fferylliaeth fod â'r cymysgedd sgiliau, galluogrwydd a chapasiti priodol i reoli meddyginiaethau cleifion yn effeithiol yn ogystal â datblygu a darparu gwasanaethau fferyllol ehangach. Roedd byrddau iechyd wedi cynnal ymarfer mapio adnoddau yn eu timau fferylliaeth eu hunain ar ddiwedd 2014. Mae [Arddangosyn 3](#) yn tynnu sylw at rai o'r dangosyddion staffio o'r ymarfer hwnnw ac yn awgrymu bod proffil staffio'r Bwrdd Iechyd yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae costau staffio a niferoedd yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o'u safoni ar sail gweithgarwch dyddiau gwely<sup>14</sup>. Er bod y gost yr awr ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr y Bwrdd Iechyd yn is o lawer nag ar gyfer gweddill Cymru, mae hyn yn adlewyrchu maint absoliwt llai'r tîm fferylliaeth yn y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â'r cyfartaledd. Yn ystod ein gwaith maes, roedd nifer o staff y Bwrdd Iechyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod galwadau ychwanegol ar y tîm fferylliaeth am fod pedwar safle aciwt ym mwrdd Iechyd Hywel Dda. Rydym yn cydnabod bod yr angen i wasanaethu pedwar safle yn ffactor sy'n cymhlethu'r sefyllfa o bosibl i'r tîm fferylliaeth ond nid oeddem wedi ystyried y mater hwn yn fanwl.

---

<sup>14</sup> Mae data am lefelau staffio a dyddiau gwely yn ymwneud â safleoedd ysbytai aciwt o fewn y Bwrdd Iechyd.



### Arddangosyn 3: Mae proffil staffio'r Bwrdd Iechyd yn debyg iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru


		Hywel Dda	Cyfartaledd Cymru
Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau	Cyfanswm y fferyllwyr a thechnegwyr mewn swydd (WTE)	114	148
	Cymhareb fferyllwyr i dechnegwyr	51:49	51:49
	Fferyllwyr a thechnegwyr (WTE) am bob 100,000 o ddyddiau gwely llawn	39	37
Costau staffio <sup>15</sup>	Cost gyfartalog am bob swydd WTE: Fferyllydd	£63,100	£63,600
	Cost gyfartalog am bob swydd WTE: Technegydd	£34,800	£35,900
	Fferyllydd a thechnegydd: cost yr awr	£2,900	£3,800
	Fferyllydd a thechnegydd: cost y dydd gwely llawn	£19.38	£18.68

*Ffynhonnell: Ymarfer Mapio Adnoddau a gyflawnwyd gan dimau fferylliaeth ledled Cymru (2014), 'Gwelyau'r GIG yn ôl sefydliad a safle' StatsCymru (2013-14). Mae'r data hyn yn cynnwys staff mewn ysbytai aciwt yn unig ac nid yw ein dadansoddiad yn cynnwys yr amser/adnoddau sydd wedi'u neilltuo i weithgareddau gofal sylfaenol a fferylliaeth gymunedol. Mae'r data am ddyddiau gwely ar gyfer bwrdd iechyd Hywel Dda yn cynnwys Ysbyty Cyffredinol Glangwili ond nid ydynt yn cynnwys Uned Iechyd Meddwl Caerfyrddin.*

- 30.** Roedd ein gwaith ledled Cymru wedi amlygu barn gyffredinol bod lefel y llwyth gwaith yn uchel ac nad oedd digon o staff. Yn y Bwrdd Iechyd, roedd 65 y cant o staff fferyllol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad bod 'digon o staff fferyllol yn y sefydliad hwn i mi wneud fy ngwaith yn briodol'. Mae hyn yn cymharu â 60 y cant ledled Cymru. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos y graddau yr oedd staff yn cytuno â'r datganiad 'Mae gen i amser i gyflawni fy holl waith'.

<sup>15</sup> Mae'r costau gros wedi'u seilio ar bwynt canol pob band cyflog ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau rotâu, pensiynau ac yswiriant gwladol. Mae'r gost yr awr yn cael ei chyfrifo ar sail cyfanswm y fferyllwyr a thechnegwyr WTE ym mhob band cyflog, gan luosi'r ffigurau hyn wedyn â'r gost gros yr awr (gan gymryd eu bod yn gweithio 37.5 awr yr wythnos am 52 o wythnosau'r flwyddyn) ar bwynt canol pob band, ac wedyn adio'r cyfansymiau yn yr holl fandiau at ei gilydd.

**Arddangosyn 4: Roedd staff fferyllol yn anghytuno gan mwyaf â'r datganiad 'Mae gen i amser i gyflawni fy holl waith'**



*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferyllol*

- 31.** Dywedodd staff a gyfwelwyd fod anawsterau o ran capasiti wedi codi o fewn y tîm fferylliaeth ac nad oedd rhai wardiau'n cael gwasanaeth rheolaidd. Mae hyn yn ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch staff ac oedi wrth recriwtio staff i lenwi swyddi gwag. Dywedwyd wrthym hefyd fod y defnydd cynyddol o feddygon locwm yn cynyddu'r galw ar amser fferyllwyr gan nad yw meddygon locwm yn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd ac felly mae arnynt angen cymorth ychwanegol yn aml i ddeall y systemau a'r llyfr fformiwlâu sy'n cael eu defnyddio ym mwrdd iechyd Hywel Dda.
- 32.** Oherwydd y pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd, mae timau fferylliaeth bellach yn blaenoriaethau'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i'r wardiau. Rhoddir blaenoriaeth i gleifion sydd newydd eu derbyn a chleifion sydd i'w rhyddhau, ac mae hyn wedi arwain at beidio â blaenoriaethu'r amser y gall timau ei roi at reoli meddyginiaethau cleifion eraill. Mae lefelau staffio'r gwasanaethau fferyllol ar gofrestr risg y Bwrdd Iechyd a dywedodd yr Arweinydd Sirol dros Sir Gaerfyrddin ei fod yn adolygu cymysgedd sgiliau ei staff i geisio delio â'r pwysau.

## Hyfforddi a datblygu

Mae'r tîm fferylliaeth yn gymharol anfodlon ar lefel yr hyfforddiant y mae'n ei gael, dim ond un aelod o'r tîm sy'n cael ei hyfforddi mewn methodolegau gwella ac nid oes adnoddau fferyllol wedi'u neilltuo ar gyfer hyfforddiant meddygol a nyrsio

- 33.** Yn ein harolwg, roedd 49 y cant o staff fferyllol y Bwrdd Iechyd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad 'Rwyf yn cael digon o hyfforddiant, dysg a datblygiad'. Roedd hyn yn cymharu â 33 y cant ledled Cymru. Mae data o'r ymarfer mapio adnoddau yn dangos bod staff fferyllol yn y Bwrdd

---

lechyd wedi treulio naw y cant o'u hamser, ar gyfartaledd, ar dderbyn neu ddarparu hyfforddiant. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfartaledd ledled Cymru<sup>16</sup>.

34. Yn y Cynllun Sicrhau Ansawdd<sup>17</sup> ar gyfer y GIG yng Nghymru, nodwyd y dylai byrddau iechyd gynllunio i hyfforddi 25 y cant o'u staff mewn methodolegau gwella ansawdd erbyn diwedd 2014. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym mai dim ond un aelod o staff fferyllol gofal eilaidd a oedd wedi'i hyfforddi at lefel efydd o leiaf yn y fethodoleg Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd (GAGG) sy'n cael ei harwain gan 1000 o Fywydau a Mwy, sef dim ond 0.7 y cant o'i staff fferyllol aciwt. Hon oedd y ganran isaf yng Nghymru, lle'r oedd y ffigur yn amrywio rhwng 0.7 y cant a 67 y cant. Yng Nghymru gyfan, cyfran y staff fferyllol gofal eilaidd sydd wedi'i hyfforddi at lefel efydd o leiaf yw 24 y cant. Dywedwyd wrthym fod yr Arweinwyr Sirol yn hyrwyddo pecyn hyfforddi ar-lein GAGG ymysg staff ac y bydd rhagor yn ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf.
35. Gall hyfforddiant i staff nyrsio a meddygol fod yn ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant sy'n cyfrannu at ymgysylltu amlddisgyblaethol da wrth reoli meddyginiaethau. Mae *Professional Standards for Hospital Pharmacy Services* (y Safonau) yn datgan y dylai gwasanaeth fferyllol roi cymorth ar gyfer hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant parhaus i staff clinigol. Ledled Cymru, mae byrddau iechyd yn darparu arian ar gyfer cyflwyno hyfforddiant i staff meddygol gan 0.7 WTE o staff fferyllol ar gyfartaledd. Nid yw bwrdd iechyd Hywel Dda yn ariannu unrhyw staff i gyflawni'r rôl hon. Er hynny, mae staff fferyllol yn darparu hyfforddiant i fyfyrwyr meddygol cyn cymhwyso sy'n dod i'r ysbytai. Mae'r brifysgol yn darparu rhywfaint o gyllid i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer hyfforddiant meddygol i israddedigion er nad yw'n ddigon i dalu am swydd fferylllydd ychwanegol.
36. Am fod eu profiad yn gymharol fach, mae staff meddygol iau yn un grŵp staff sydd ag angen penodol am hyfforddiant mewn rheoli meddyginiaethau. Yn y Bwrdd Iechyd, mae staff fferyllol yn cymryd rhan mewn hyfforddiant sefydlu i feddygon iau drwy sesiwn 20 munud yn y rhaglen sefydlu. Roedd staff a gyfwelwyd wedi mynegi pryderon bod meddygon iau'n cael eu llethu gan faint y wybodaeth y maent yn ei chael yn y rhaglen sefydlu felly mae'n bosibl bod effaith y sesiwn fferylliaeth yn gyfyngedig. Mae'r tîm fferylliaeth yn darparu dwy sesiwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar yr agweddau ymarferol ar ragnodi a dwy sesiwn ar ragnodi gwrthfotigau.
37. Yn ein harolwg, roedd 29 y cant o feddygon a 50 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae'n hawdd i mi ddiweddarau fy sgiliau rheoli meddyginiaethau'. Roedd hyn yn cymharu â 35 y cant o feddygon a 47 y cant o nyrsys ledled Cymru.
38. Yn ein harolwg, roedd 17 y cant o staff fferyllol, 22 y cant o feddygon a 23 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae rheolaethau da ar waith yn y Bwrdd Iechyd i fonitro perfformiad rhagnodwyr meddygol'. Roedd hyn yn cymharu â 23 y cant o staff fferyllol, 29 y cant o feddygon a 32 y cant o nyrsys ledled Cymru.
39. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn sicrhau hyfforddiant parhaus i nyrsys drwy asesiadau o gymhwysedd, hyfforddiant tiwtoriaeth, ac ymgyrchoedd a sesiynau codi ymwybyddiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn comisiynu Prifysgol Abertawe i ddarparu gweithdai rheolaidd ar ddiogelwch meddyginiaethau i staff nyrsio ac mae'n ystyried sut i ddatblygu dull mwy strwythuredig o ddarparu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau i'r holl grwpiau staff. Cawsom wybod drwy ein cyfweiliadau fod disgwyliad y bydd yr holl nyrsys cymwysedig wedi ymgymryd â rowndiau meddyginiaethau o dan oruchwyliaeth ac wedi'u hasesu'n gymwys i roi meddyginiaethau cyn i staff cymwysedig ymgymryd â swydd newydd. Er hynny, dywedodd rhai rheolwyr ward y byddai nyrsys

---

<sup>16</sup> Data o weithgarwch Mapio Adnoddau sy'n ymwneud â grwpiau staff Fferyllol a Thechnegol ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd.

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, *Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru 2012-2016*, 2012

---

newydd yn cael eu goruchwylio wrth ddechrau ar eu ward er mwyn i'r rheolwr allu gwirio eu bod yn gymwys. Bydd unrhyw faterion sy'n codi ar lefel yr ymarferydd unigol yn cael eu datrys drwy ailhyfforddi ac ailasesu. Er nad oedd yr un o'r rheolwyr ward a gyfwelwyd wedi cael profiad o ddefnyddio'r broses hon, cawsom wybod ganddynt y byddent yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r broses pe byddai'r angen yn codi. Darperir hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen ar y ward, er enghraifft, ar roi meddyginiaethau mewnwythiennol, ac mae staff wedi'u cymell i gwblhau'r pecyn e-ddysgu ar reoli meddyginiaethau yn dilyn yr adroddiadau *Ymddiried mewn Gofal*. Dywedodd staff fferyllol eu bod wedi gwneud llawer o waith gyda staff nyrsio ar reoli meddyginiaethau ond bod hyn wedi'i wneud ar sail *ad hoc*.

## Gwasanaethau fferylliaeth glinigol

Mae'n ymddangos bod y perthnasoedd ar y wardiau'n dda er bod nifer y wardiau yn y Bwrdd Iechyd lle mae technegydd penodol yn is na'r cyfartaledd a bod rhai mesurau o fferylliaeth mewn wardiau'n amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd

40. Fferylliaeth glinigol yw gweithgarwch gan dimau fferylliaeth ar wardiau ac mewn clinigau. Mae'r gweithgarwch hwn yn galw am ymwneud yn uniongyrchol â chleifion, cynghori gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a chyfrannu'n llawn at ddull y tîm amlddisgyblaethol o reoli meddyginiaethau pobl. Yn ôl y Safonau, dylai fferyllwyr gael eu hintegreiddio â thimau clinigol a darparu gofal clinigol diogel a phriodol yn uniongyrchol i gleifion.
41. Roedd yr ymarfer mapio adnoddau a gwblhawyd ledled Cymru ar ddiwedd 2014 yn dangos bod fferyllwyr a thechnegwyr y Bwrdd Iechyd fel arfer yn treulio 32 y cant o'u hamser yn rhoi cymorth uniongyrchol mewn wardiau a chlinigau, ac mae hyn yn cyfateb yn union i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru<sup>18</sup>.
42. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos rhai o'r data allweddol a gasglwyd gennym yn ei hadolygiad o fferylliaeth glinigol a oedd yn cynnwys dwy ward ym mhob un o ysbytai'r Bwrdd Iechyd (mae manylion y wardiau hyn yn **Atodiad 1**). Mae'r arddangosyn hefyd yn dangos data o'n harolygon o staff ac o waith archwilio ehangach, sy'n ymwneud â pherthnasoedd a gwasanaethau fferylliaeth glinigol ar wardiau.

---


<sup>18</sup> Data o weithgarwch Mapio Adnoddau sy'n ymwneud â grwpiau staff Fferyllol a Thechnegol ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd.

Arddangosyn 5: Mae canlyniadau'r Bwrdd Iechyd yn debyg i'r rhai ar gyfer Cymru gyfan ac eithrio mai ganddo ef y mae'r ganran isaf o wardiau sydd â thechnegydd penodol ac nad oes ganddo unrhyw wardiau â gwasanaeth ymweld saith diwrnod

Dangosydd	Y Bwrdd Iechyd	Cymru	Sylwadau
% y staff fferyllol sy'n dweud bod perthnasoedd da neu ragorol â staff meddygol	73%	78%	Mae perthnasoedd da rhwng staff fferyllol, meddygol a nyrsio yn hanfodol ar gyfer dull amlddisgyblaethol effeithiol o reoli meddyginiaethau. Cytunodd 73% o staff meddygol fod perthnasoedd â staff fferyllol yn dda neu'n rhagorol.
% y staff fferyllol sy'n dweud bod perthnasoedd da neu ragorol â staff nyrsio	88%	88%	Roedd 78% o staff nyrsio yn rhannu'r farn hon. Soniwyd wrthym nifer o weithiau am y perthnasoedd cadarnhaol yn ystod ein hymweliadau ag ysbytai.
% y wardiau sydd â fferylllydd penodol	90%	91%	Mae dyrannu fferyllwyr a thechnegwyr penodol i wardiau penodol yn gallu hyrwyddo perthnasoedd gweithio. Y Bwrdd Iechyd sydd â'r ganran isaf yng Nghymru o wardiau sydd â thechnegydd penodol.
% y wardiau sydd â thechnegydd penodol	25%	50%	Roedd cryn amrywiaeth rhwng safleoedd. Er nad oes technegydd penodol ar gyfer yr un o'r wardiau yn ysbytai Bronglais a Llwynhelyg, y ffigurau cyfatebol am Ysbyty Glangwili ac Ysbyty'r Tywysog Philip oedd 9 y cant a 81 y cant yn y drefn honno.
% y wardiau lle nad oes gwasanaeth ymweld gan y tîm fferylliaeth	13%	11%	Os nad oes gwasanaeth ymweld rheolaidd â'r ward, gallai hyn awgrymu bod angen creu gwell cysylltiadau rhwng y tîm fferylliaeth a thimau'r wardiau.
% y wardiau sydd â gwasanaeth ymweld saith diwrnod	0%	5%	Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd ar hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Tynnwyd sylw eisoes ym mharagraff 32 at y pwysau staffio ar y gwasanaeth fferyllol a'r ffaith bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wardiau penodol a mathau penodol o gleifion.
% yr argymhellion gan dimau fferylliaeth a arweiniodd at newidiadau	79%	79%	Ar ôl edrych ar yr argymhellion a wnaed gan dimau fferylliaeth ynghylch mathau o gyffuriau a'u dosau, cyfrifwyd canran yr argymhellion a oedd wedi'u dilyn.
% y staff fferyllol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn gallu dylanwadu ar ymddygiad rhagnodi meddygon a nyrsys	63%	68%	Os nad yw staff fferyllol yn gallu dylanwadu ar ragnodwyr, mae hyn yn awgrymu y dylai perthnasoedd gael eu cryfhau.

43. Mae **Arddangosyn 6** yn dangos bod y cyfnod cyfartalog yr oedd timau fferylliaeth yn ei dreulio ar y ward ar bob ymweliad yn ystod ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ar y rhan fwyaf o wardiau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, roedd ymweliadau'n hirach na'r cyfartaledd yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty'r Tywysog Philip a'r ymweliadau â ward Ceredig Dwyrain yn Ysbyty Bronglais oedd y byrraf o'r holl wardiau a samplwyd yng Nghymru. Mae'r arddangosyn yn dangos hefyd fod nifer cyfartalog y cleifion a adolygwyd bob awr yn gymharol isel yn holl wardiau'r Bwrdd Iechyd ac eithrio yn ward Ceredig Dwyrain yn Ysbyty Bronglais a Ward Un Ysbyty'r Tywysog Philip. Gall cyfradd adolygu isel mewn unedau derbyn aciwt fod yn ganlyniad i'r mewnbwn gwahanol sydd ei angen gan y tîm fferylliaeth mewn unedau arhosiad byr. Bydd y proffiliau yn yr holl wardiau'n agored hefyd i'r effaith o ffactorau fel cymhlethdod achosion ac arferion ymweld y tîm fferylliaeth. Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Iechyd am ddadansoddi'r data a gyflwynodd ymhellach yng nghyd-destun gwybodaeth leol.


**Arddangosyn 6: Cymhariaeth ledled Cymru o'r amser a dreuliodd timau fferylliaeth ar y wardiau ar bob ymweliad a nifer y cleifion yr oeddent wedi'u hadolygu bob awr**



*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Fferylliaeth Glinigol*

44. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos manylion llwyth gwaith y timau fferylliaeth, yn ystod ein ymweliadau â wardiau'r sampl, mewn perthynas â chyflenwi meddyginiaethau. Roeddem wedi cofnodi tri math o gyflenwi: cyflenwi meddyginiaethau i gleifion mewnol, cyflenwi meddyginiaethau y bydd cleifion yn mynd â nhw wrth gael eu rhyddhau, a chyflenwi systemau monitro dosau, sef blychau adrannol sy'n helpu cleifion i gofio pa feddyginiaethau i'w cymryd. Mae'r arddangosyn yn dangos bod staff fferyllol yn wardiau'r sampl yn Ysbyty Llwynhelyg yn treulio mwy o amser ar gyfartaledd yn cyflenwi meddyginiaeth i gleifion fynd â hi adref tra oedd y cyflenwi ar systemau monitro dosau'n uwch na'r cyfartaledd yn Ysbyty Glangwili. Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Iechyd am wneud mwy o waith ar ddeall y data hyn, er ei bod yn bosibl bod cymysgedd achosion y cleifion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad o fferylliaeth glinigol yn ffactor allweddol yn y gwahaniaethau rhwng safleoedd.

Arddangosyn 7: Roedd y mathau o feddyginiaethau a gyflenwyd gan dimau fferylliaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd. Yn Ysbyty Llwynhelyg, hanner y gweithgarwch a gofnodwyd oedd cyflenwi meddyginiaeth i fynd â hi adref.



*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Fferylliaeth Glinigol (ymweld â wardiau)*

45. Mae rowndiau ward yn ffordd i staff fferyllol gydweithio'n agos â gweddill y tîm amlddisgyblaethol i gyfrannu at ofal cleifion. Mae gwybodaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad yn dangos bod lle i adolygu'r graddau y mae staff fferyllol yn integreiddio eu hymweliadau â wardiau â rowndiau ward a gyflawnir gan feddygon. Mae'r canlyniadau a gawsom o bob rhan o Gymru'n awgrymu bod lle i gynnwys timau fferylliaeth yn fwy aml mewn rowndiau ward gan mai dim ond un y cant o'r ymweliadau a gofnodwyd yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol oedd yn rhan o rownd ward.
46. Yn y Bwrdd Iechyd, nid oedd yr un o'r 100 o ymweliadau â'r wardiau gan y timau fferylliaeth yn rhan o rownd ward. Mae'n ddiddorol bod ein hadolygiad wedi amlygu gwahaniaeth barn ynghylch y datganiad 'Mae staff fferylliaeth glinigol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn rowndiau ward amlddisgyblaethol'. Roedd 12 y cant o staff fferyllol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad, o'i gymharu â 32 y cant o feddygon a 23 y cant o nyrsys. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r rheini ar gyfer Cymru gyfan, lle'r oedd 40 y cant o staff fferyllol, 38 y cant o feddygon a 35 y cant o nyrsys wedi cytuno neu gytuno'n gryf â'r datganiad. Dywedodd staff fferyllol eu bod yn ceisio bod ar y ward a bod ar gael i ateb ymholiadau ar yr un pryd â'r rownd ward er nad yw hyn yn ymarferol bosibl yn aml. Y rhesymau a roddwyd yw bod rowndiau ward yn cael eu hamserlennu ar amseroedd gwahanol yn ystod y dydd ac y gall cleifion y meddyg ymgynghorol fod mewn gwahanol wardiau o gwmpas yr ysbyty.
47. Mae **Arddangosyn 8** yn dangos barn staff fferyllol ynghylch sut y gallai eu tîm fod yn fwy effeithiol ac yn cymharu eu barn nhw â barn meddygon a nyrsys. Er bod staff fferyllol yn credu y dylai fod yn flaenoriaeth iddynt dreulio mwy o amser ar y wardiau, roedd meddygon a nyrsys yn credu y dylai'r tîm fferylliaeth roi mwy o gymorth wrth ryddhau cleifion.



## Arddangosyn 8: Barn staff am ffyrdd o wneud y tîm fferylliaeth yn fwy effeithiol

Blaenoriaeth	Barn staff fferyllol	Barn meddygon	Barn nyrsys
1 (Uchaf)	Treulio mwy o amser ar y wardiau	Gwella/cyflwyno prosesau i helpu wrth ryddhau cleifion	Gwella/cyflwyno prosesau i helpu wrth ryddhau cleifion
2	Cymryd rhan mewn wardiau rownd ar ôl cymryd meddyginiaethau	Treulio mwy o amser ar y wardiau	Gwella/cyflwyno gwasanaeth ar alwad
3	Gwella/cyflwyno prosesau i helpu wrth ryddhau cleifion	Cymryd rhan mewn wardiau rownd ar ôl cymryd meddyginiaethau	Gwella dilyniant staff fferyllol sy'n cynorthwyo'r ward/cleifion
4	Gwella dilyniant staff fferyllol sy'n cynorthwyo'r ward/cleifion	Gwella dilyniant staff fferyllol sy'n cynorthwyo'r ward/cleifion	Treulio mwy o amser ar y wardiau
5	Newid amser yr ymweliadau rheolaidd â wardiau	Gwella/cyflwyno gwasanaeth ar alwad	Cymryd rhan mewn wardiau rownd ar ôl cymryd meddyginiaethau
6	Gwella/cyflwyno gwasanaeth ar alwad	Newid amser yr ymweliadau rheolaidd â wardiau	Newid amser yr ymweliadau rheolaidd â wardiau

*Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferyllol a Staff Meddygol*

## Oriau agor a mynediad at y gweithlu fferylliaeth

Mae gwasanaethau fferyllol yn hygyrch ac ymatebol ar y cyfan er bod lle i wella y tu allan i oriau gweithio arferol ac mae penderfyniad i'w wneud ynghylch a fydd fferyllfeydd yn cael eu hagor ar ddydd Sul

- Dylai gwasanaethau fferyllol fod yn hygyrch ar gyfer staff gofal iechyd ar yr amseroedd pan fo'r angen mwyaf amdanynt. Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol wedi tynnu sylw at broblemau sy'n ymwneud ag argaeledd gwasanaethau fferyllol y tu allan i oriau gweithio arferol. Mae'r Gymdeithas wedi nodi bod argaeledd cyfyngedig gwasanaethau fferyllol mewn ysbytai, yn enwedig ar benwythnosau, yn gallu arwain at golli mwy o ddosau a mwy o wallau rhagnodi, diffyg cysoni meddyginiaethau a chyfnodau hir o aros am feddyginiaethau wrth ryddhau cleifion<sup>19</sup>.
- Mae **Arddangosyn 9** yn dangos oriau agor gwasanaeth fferyllol y Bwrdd Iechyd o'u cymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru. Yn ogystal â'r oriau sydd wedi'u dangos yn y tabl, mae tîm fferylliaeth y Bwrdd Iechyd ar gael ar alwad bob amser, ac mae hyn yn wir hefyd am yr holl fyrddau iechyd eraill yng Nghymru. Mae fferyllfa Ysbyty Llwynhelyg yn agor ar fore Sul ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n archwilio effaith y gwasanaeth estynedig hwn ar allu wardiau i ryddhau cleifion ar ddydd Sul. Bydd yr archwiliad yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch a ddylid dechrau agor ar ddydd Sul mewn ysbytai eraill.

<sup>19</sup> Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, *Seven Day Services in Hospital Pharmacy: Giving patients the care they deserve*, 2014.

Arddangosyn 9: Mae oriau agor fferyllfeydd ar ddyddiau'r wythnos yn amrywio rhwng ysbytai ond maent yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nid oes gwasanaeth wedi'i drefnu ar y penwythnos i wardiau yn ysbytai Bronglais a'r Tywysog Philip

Ysbyty	Cyfanswm yr oriau agor ar gyfer unedau damweiniau ac achosion brys/ cleifion allanol		Cyfanswm yr oriau agor i ddarparu gwasanaethau clinigol i'r wardiau		Cyfanswm yr oriau pan yw o leiaf un aelod o'r staff Fferyllol yn bresennol ar y safle	
	Llun-Gwe	Sad-Sul	Llun-Gwe	Sad-Sul	Llun-Gwe	Sad-Sul
Bronglais	38	4	40	0	43	4
Glangwili	41	3	42	0	42	3
Llwynhelyg	40	6	46	0	46	6
Y Tywysog Philip	43	3	43	0	43	3
<b>Cyfartaledd Cymru</b>	<b>42</b>	<b>5</b>	<b>43</b>	<b>4*</b>	<b>43</b>	<b>6</b>

*Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Craidd Swyddfa Archwilio Cymru*

*\* Nid yw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan wedi'i newid ers newid data'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Ysbyty Glangwili o 3 awr i 0 awr a'r data ar gyfer Ysbyty Llwynhelyg o 6 awr i 0 awr.*

50. Mae **Arddangosyn 10** yn dangos canlyniadau ein harolwg o staff meddygol a nyrsio mewn perthynas â hygyrchedd ac ymatebolrwydd gwasanaethau fferyllol.

Arddangosyn 10: Mae bodlonrwydd â hygyrchedd ac ymatebolrwydd gwasanaethau fferyllol yn well ar y cyfan na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru er bod staff yn llai bodlon â threfniadau y tu allan i oriau arferol

	Y Bwrdd Iechyd	Cymru
<b>'Mae'n hawdd cysylltu â'r tîm fferylliaeth yn ystod oriau gweithio arferol'</b>		
% y staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	92%	85%
% y staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	93%	91%
<b>'Mae'n hawdd cysylltu â'r tîm fferylliaeth y tu allan i oriau gweithio arferol'</b>		
% y staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf*	35%	30%
% y staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	48%	52%
<b>'Mae'r tîm fferylliaeth yn ymateb o fewn cyfnod rhesymol i'm ceisiadau yn ystod oriau gweithio arferol'</b>		
% y staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	89%	81%
% y staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	72%	83%
<b>'Mae'r tîm fferylliaeth yn ymateb o fewn cyfnod rhesymol i'm ceisiadau y tu allan i oriau gweithio arferol'</b>		
% y staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	34%	29%
% y staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	43%	51%

*Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o staff Meddygol a Nyrsio.*

*\* Roedd mwy na chwarter y meddygon wedi rhoi 'Ddim yn gwybod' yn ateb i'r cwestiwn hwn.*

51. Yn ystod ein hymweliadau cerdded drwodd, cawsom wybod gan staff nyrsio fod y ddarpariaeth ar gyfer cysylltu â staff fferyllol yn ystod oriau arferol yn rhagorol ac ni chodwyd pryderon ynghylch cysylltu â staff cymorth fferyllol y tu allan i oriau. Fel rhan o'i ymdrech i wella mynediad at y gwasanaeth fferyllol, mae ysbytai'r Bwrdd Iechyd wedi atgoffa staff wardiau'n ddiweddar am y trefniadau ar gyfer cysylltu â staff fferyllol y tu allan i oriau arferol ac ar gyfer cael mynediad i gypyrddau cyffuriau brys drwy reolwr y safle bob awr o'r dydd a'r nos. Roedd hyn yn rhan o waith ar y cyd rhwng staff fferyllol a staff nyrsio i leihau nifer y codau '5' (meddyginiaeth nad yw ar gael) ar siartiau cyffuriau.

# Rhan 3

## Cyfleusterau rheoli meddyginiaethau

Mae'r cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol gan mwyaf ond mae materion i'w hystyried yng nghyswllt rheoli tymheredd a storio meddyginiaethau mewn wardiau. Mae diffygion yn yr holl unedau aseptic er bod risgiau neilltuol yn Ysbyty Glangwili

### Cydymffurfio â gofynion allweddol ar gyfer cyfleusterau fferylliaeth

Mae'r cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r prif ofynion gan mwyaf er bod materion i'w hystyried o ran rheoli tymheredd yn ysbytai Glangwili a Llwynhelyg

52. Mae un o Nodiadau Adeilad Iechyd Cymru<sup>20</sup> yn disgrifio'r prif ofynion ar gyfer dyluniad, cynllun a chyfleusterau fferyllfeydd mewn ysbytai. Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion mewn teip italig ac yn dangos a yw'r cyfleusterau yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais (YCB), Ysbyty Cyffredinol Glangwili (YCG), Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg (YCLI) ac Ysbyty'r Tywysog Philip (YTP) yn cydymffurfio () , yn cydymffurfio'n rhannol () neu heb gydymffurfio () .

#### Canfyddiadau

##### Lleoliad

*A yw'r fferyllfa ar y llawr gwaelod ac yn hygyrch o'r prif goridrau/llwybrau cylchredeg?*

- YCB: Mae'r fferyllfa ar y llawr gwaelod isaf ac mae'n hygyrch.
- YCG: Mae'r fferyllfa ar y llawr gwaelod ac mae'n hygyrch o'r prif lwybrau cylchredeg.
- YCLI, YTP: Mae'r fferyllfa ar y llawr gwaelod ac yn agos i brif fynedfa'r ysbyty.

##### Diogelwch terfyn

*A yw mynediad i'r fferyllfa'n cael ei reoli'n gaeth drwy ddefnyddio cardiau allwedd neu eu tebyg?*

- YCB: Mae system fynediad drwy god adnabod ar y ddwy fynedfa o'r prif goridor. Mae agorfa hefyd sy'n cael ei chloi â bolltau o'r tu mewn i'r fferyllfa.
- YCG: Mae system fynediad drwy gerdyn allwedd ar y prif ddrws. Mae drws rhwng y fferyllfa a'r ystafell aros y gellir ei agor o'r tu mewn i'r fferyllfa'n unig.
- YCLI: Mae system fynediad drwy god adnabod ar y fynedfa o'r prif goridor.
- YTP: Mae system fynediad drwy god adnabod ar y fynedfa o'r prif goridor. Mae agorfa hefyd sy'n cael ei chloi â chaeadau o'r tu mewn i'r fferyllfa.

<sup>20</sup> Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, *Pharmacy and radiopharmacy facilities, Welsh Health Building Note WHBN 14-01*, 2014.

## Canfyddiadau

### Diogelwch terfyn

*A gymerwyd camau i wirio pwy oedd yr archwilydd pan gyrhaeddodd y fferyllfa?*

- YCB: Cerddodd yr archwilydd at yr agorfa a gofyn am weld y fferyllydd. Tywysodd y fferyllydd yr archwilydd i'r fferyllfa. Ni ofynnwyd i'r archwilydd am brawf adnabod.
- YCG: Cerddodd yr archwilydd i'r man aros a gofyn am weld y fferyllydd. Gofynnodd aelod staff am weld bathodyn adnabod llun yr archwilydd a gwirio ei hunaniaeth cyn ei thywys i'r fferyllfa.
- YGLI: Cerddodd yr archwilydd i'r man aros a gofyn am weld y fferyllydd. Cafodd ei thywys gan aelod o'r staff i'r fferyllfa. Ni ofynnwyd i'r archwilydd am brawf adnabod.
- YTP: Cyfarfu'r archwilydd â'r fferyllydd wrth brif fynedfa'r ysbyty. Cafodd ei thywys i'r fferyllfa gan y fferyllydd. Ni ofynnwyd i'r archwilydd am brawf adnabod.

### Storfa a thymheredd

*A oedd yr holl eitemau wedi'u storio'n uwch na'r llawr?*

- YCB, YCG, YGLI ac YTP: Roedd yr holl eitemau yn y fferyllfa wedi'u storio oddi ar y llawr.
- A oes trefniadau da i reoleiddio'r tymheredd o dan 25 gradd, yn enwedig mewn mannau lle y mae eitemau swmpus yn cael eu storio?*
- YCB: Aerdymheru ym mhob rhan. Mae aer yr amgylchedd yn cael ei fonitro â system monitro ddi-wifr Comark a'i gadw o dan 25 gradd.
  - YCG: Dim aerdymheru a dim thermomedr. Mae'n bosibl bod y trefniadau hyn yn agored i risgiau cyfreithiol gan fod hylifau mewnwythiennol ac eitemau swmpus eraill yn cael eu storio o dan amodau sy'n annhebygol o fod yn gyson â chanllawiau'r gwneuthurwr ar reoleiddio tymheredd.
  - YGLI: Mae system aerdymheru ond nid yw'n cadw'r tymheredd o dan 25 gradd drwy'r amser. Mae tymhereddau'r amgylchedd yn cael eu monitro drwy system ddi-wifr a'u dangos ar sgrin gyfrifiadur.
  - YTP: Mae system aerdymheru ar waith ym mhob rhan ac wedi'i gosod ar 22 gradd. Mae tymheredd yr amgylchedd yn cael ei fonitro a'i gofnodi. Mae system aerdymheru a monitro tymheredd ar wahân ar gyfer ystafell treialon clinigol.

### Cyffuriau a reolir

*A oes storfa ar wahân â chlo a larwm ar gyfer cyffuriau a reolir?*

- YCB, YGLI ac YTP: Mae storfa ar wahân â chlo a larwm.
- YCG: Mae storfa ar wahân â chlo ond nid oes larwm ar wahân ar ei chyfer.

## Canfyddiadau

### Oergelloedd

*A oes dangosydd tymheredd allanol ar yr holl oergelloedd yn y fferyllfa? Ac a oedd y dangosyddion hyn yn dangos darlenniadau rhwng dwy ac wyth gradd?*

✓ YCB, YCG, YGLI ac YTP: Mae dangosydd allanol ar yr holl oergelloedd. Roedd y darlenniadau i gyd o fewn yr amrediad.

*A yw tymereddau oergelloedd yn cael eu monitro'n gyson ac a oes system awtomatig (yn ystod oriau arferol a'r tu allan iddynt) i rybuddio os bydd tymereddau y tu allan i'r amrediad?*

✓ YCB: Mae tymereddau oergelloedd yn cael eu monitro'n gyson ac mae system awtomatig (yn ystod oriau arferol a'r tu allan iddynt) i rybuddio os bydd tymereddau y tu allan i'r amrediad. Y tu allan i oriau, bydd system Comark yn rhybuddio staff y switsfwrdd ac yn galw fferyllfeydd a fydd yn dod i ymchwilio.

✓ YCG: Mae tymereddau oergelloedd yn cael eu monitro'n gyson ac mae system awtomatig (yn ystod oriau arferol a'r tu allan iddynt) i rybuddio os bydd tymereddau y tu allan i'r amrediad. Y tu allan i oriau, bydd larwm yr oergell yn rhybuddio staff y switsfwrdd a'r fferyllfeydd sydd ar alwad sy'n gallu ei wirio ar-lein o'i gartref a dod i ymchwilio.

✓ YGLI: Mae tymereddau oergelloedd yn cael eu monitro'n gyson ac mae system awtomatig (yn ystod oriau arferol a'r tu allan iddynt) i rybuddio os bydd tymereddau y tu allan i'r amrediad. Y tu allan i oriau, bydd larwm yr oergell yn rhybuddio staff y switsfwrdd a'r fferyllfeydd sydd ar alwad a fydd yn dod i ymchwilio.

✓ YTP: Mae tymereddau oergelloedd yn cael eu monitro'n gyson ac mae system awtomatig (yn ystod oriau arferol a'r tu allan iddynt) i rybuddio os bydd tymereddau y tu allan i'r amrediad. Y tu allan i oriau, bydd larwm yr oergell yn rhybuddio staff y switsfwrdd a'r fferyllfeydd sydd ar alwad a fydd yn dod i ymchwilio.

*A ellir cloi'r holl oergelloedd yn y fferyllfa?*

✓ YCB, YCG, YGLI ac YTP: Gellir cloi'r holl oergelloedd yn y fferyllfeydd.

### Storfa meddyginiaethau brys

*A oes storfa benodol lle y gellir cael gafael ar feddyginiaethau pan nad oes staff yn y fferyllfa?*

✓ YCB: Mae'r storfa y tu ôl i'r drws mynediad cyntaf i'r fferyllfa. Roedd y storfa wedi'i threfnu'n dda. Gellir rhyddhau eitemau o bell i'r storfa o'r robot.

✓ YCG: Mae'r storfa y tu mewn i swyddfa'r rheolwr cydgysylltu. Roedd y storfa wedi'i threfnu'n dda.

✓ YGLI: Mae'r cwpwrdd ar goridor ar yr ail lawr ger wardiau. Roedd y storfa wedi'i threfnu'n dda.

✓ YTP: Mae cwpwrdd argyfwng ar y prif goridor gyferbyn â'r ffreutur. Roedd y storfa wedi'i threfnu'n dda.

*A oes system glir i gofnodi eitemau a gymerwyd o'r storfa meddyginiaethau brys?*

✓ YCB: Mae'r ymarferydd yn cofnodi'r cyffuriau y mae'n eu cymryd o'r storfa mewn llyfr nodiadau. Mae technegydd yn gwirio pa eitemau a gymerwyd ac yn atgyflenwi'r stoc bob bore.

✓ YCG: Mae'r ymarferydd yn cofnodi'r cyffuriau y mae'n eu cymryd o'r storfa mewn ffeil bapur. Mae technegydd yn gwirio pa eitemau a gymerwyd ac yn atgyflenwi'r stoc bob bore.

✓ YGLI: Mae'r ymarferydd yn cofnodi'r cyffuriau y mae'n eu cymryd o'r storfa ar ddalen bapur. Mae technegydd yn gwirio pa eitemau a gymerwyd ac yn atgyflenwi'r stoc bob bore.

✓ YTP: Rhestr o gyffuriau yn nhrefn yr wyddor gyda dyddiadau dod i ben ar restr wirio i'w llenwi gan yr ymarferydd. Mae technegydd yn gwirio pa eitemau a gymerwyd ac yn atgyflenwi'r stoc bob bore.

## Canfyddiadau

### Fferyllfa

A oes meinciau a wynebâu gweithio yn y fferyllfa o liw sy'n gwrthgyferbynnu â labeli meddyginiaeth gwyn?

- YCB: Mae'r wynebâu gweithio'n llwyd golau.
- YCG: Mae'r wynebâu gweithio ar batrwm sy'n efelychu pren brown.
- YGLI: Mae'r wynebâu gweithio'n las.
- YTP: Mae'r wynebâu gweithio'n frith.

A oes cyfleusterau ar wahân ar gyfer golchi dwylo yn y fferyllfa?

- : YCB, YCG, YGLI ac YTP: Mae cyfleusterau ar wahân ar gyfer golchi dwylo yn y fferyllfeydd.

*Ffynhonnell: Sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ar fferyllfeydd mewn ysbytai*

## Paratoi aseptigau a meddyginiaethau i'w chwistrellu

Mae adroddiadau archwilio allanol wedi tynnu sylw at ddiffygion yn yr holl unedau aseptig, ac at risgiau neilltuol yn Ysbyty Glangwili ac, yn yr un modd â gweddill Cymru, nid yw'r paratoi ar feddyginiaethau i'w chwistrellu ar y wardiau'n cael ei archwilio'n rheolaidd

53. Mae cyfleusterau aseptig yn unedau di-haint ar gyfer paratoi meddyginiaethau uchel eu risg fel pigladau cemotherapi, porthiant mewnwythiennol ar gyfer babanod a anwyd cyn pryd a rhai gwrthfotigau. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu unrhyw gyfleusterau aseptig trwyddedig ond mae ganddo dri chyfleuster aseptig didrwydded. Mae **Arddangosyn 11** yn dangos y canfyddiadau lefel uchel yn y Bwrdd Iechyd o arolygiadau Fferyllfydd Sicrhau Ansawdd Cymru Gyfan.

**Arddangosyn 11:** Mae adroddiadau archwilio Sicrwydd Ansawdd Cymru Gyfan ar unedau aseptig didrwydded wedi tynnu sylw at ddiffygion, yn enwedig yn Ysbyty Glangwili

Lleoliad yr uned aseptig ddidrwydded	Dyddiad yr arolygiad diwethaf	Canfyddiadau lefel uchel
Bronglais	Tachwedd 2013	7 diffyg canolig
Glangwili	Awst 2013	4 diffyg mawr a 5 diffyg canolig
Llwynhelyg	Gorffennaf 2013	5 diffyg canolig

*Ffynhonnell: Adroddiadau Archwilio Sicrwydd Ansawdd Fferyllol Cymru Gyfan*

54. Mae'r pryderon a godwyd o ganlyniad i arolygiadau o'r unedau aseptig wedi'u cofnodi yng nghofrestrau risg y Bwrdd Iechyd. Cafwyd bod risg sylweddol i'r uned yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili yn enwedig yng nghyswllt adeiledd ffisegol yr uned. Mae cynllun ar gyfer uwchraddio'r cyfleusterau aseptig drwy raglen gyfalaf ond, hyd yn hyn, nid yw'r ceisiadau am gyllid ar ei gyfer wedi llwyddo. Bydd y canlyniadau o arolygiad diweddarach ar gael cyn hir ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhag-weld y bydd y canfyddiadau'n fwy beirniadol na'r rhai cynt. Pe byddai'r Bwrdd Iechyd yn gorfod cau unrhyw un o'i unedau aseptig, byddai'n rhaid iddo drefnu i aseptigau gael eu cynhyrchu'n allanol ym Mryste



---

neu Gaerfaddon a byddai hyn yn gallu arwain at anawsterau cludiant a'r posibilrwydd o oedi cyn cael meddyginiaethau aseptig.

55. Mae rhai meddyginiaethau i'w chwistrellu'n cael eu paratoi ar y wardiau. Bydd rhai wardiau'n paratoi gwrthfotigau mewnwythiennol bob dydd tra na fydd eraill ond yn gwneud hynny'n anaml. Dylai'r prosesau paratoi hyn fod yn destun archwiliadau blynyddol ond ledled Cymru cawsom mai'n anaml yr oedd archwiliadau o'r fath yn cael eu cyflawni.<sup>21</sup> Nododd y Bwrdd Iechyd fod pob ward wedi cynnal asesiad risg ar gyfer paratoi meddyginiaethau i'w chwistrellu, ond nid oedd unrhyw wardiau wedi cynnal archwiliad o arferion aseptig yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd tri bwrdd iechyd yng Nghymru nad oeddent yn gallu darparu'r wybodaeth hon. Dywedodd pedwerydd bwrdd iechyd nad oedd unrhyw asesiadau risg nac archwiliadau wedi'u cynnal.

## Cyfleusterau ar gyfer storio meddyginiaethau ar y wardiau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ymdrin â materion sy'n ymwneud â storio ac oeri meddyginiaethau ar y wardiau a oedd wedi'u nodi yn hapwiriadau *Ymddiried mewn Iechyd*

56. Roedd hapwiriadau *Ymddiried mewn Iechyd* wedi tynnu sylw at faterion ledled Cymru sy'n ymwneud â storio meddyginiaethau'n ddiogel ar wardiau ysbytai. Y prif ganfyddiadau o'r hapwiriadau yn y Bwrdd Iechyd oedd:
- YCB: Roedd y cwpwrdd cyffuriau ar gyfer un uned wedi'i leoli ar ward gyfagos fel bod angen i ddwy nyrs adael eu ward i nôl cyffuriau a reolir. Roedd bysellbad ar ddrws un ystafell gyffuriau ond roedd rhywbeth wedi'i osod i ddal y drws ar agor. Roedd trolïau cyffuriau wedi'u cloi a'u clymu'n sownd wrth y wal ond roedd un troli a oedd heb ei glymu'n ddiogel.
  - YCG: Nid oedd clo ar yr ystafelloedd storio cyffuriau ac roedd drws un ohonynt yn cael ei ddal ar agor. Roedd cyffuriau a chwistrellau'n cael eu gadael allan ar wynebau gweithio.
  - YCLI: Roedd y rhan fwyaf o'r cypyrddau cyffuriau wedi'u cloi a'u diogelu er bod un ystafell ar gyfer storio/paratoi meddyginiaethau a oedd heb glo diogel.
  - YTP: Nid oedd drws ar ystafell driniaethau lle'r oedd cypyrddau cyffuriau fel nad oedd modd ei chloi, er ei bod y tu ôl i gorlan y nyrsys. Roedd chwistrell a meddyginiaethau ar gyfer rhyddhau cleifion wedi'u gadael ar ben wyneb gweithio yn yr ystafell driniaethau. Roedd trolïau meddyginiaethau'n cael eu cloi'n sownd wrth y wal ar ôl gorffen eu defnyddio.
57. Yn ystod ein hymweliadau â wardiau, dywedodd staff wrthym fod rhai materion sy'n ymwneud â storio a chynllun y wardiau'n anodd eu newid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod anawsterau ynghylch storio ac mae nyrs rheoli meddyginiaethau, sy'n adrodd i Bennaeth Rheoli Meddyginiaethau, yn adolygu'r anawsterau ynghylch storio. Dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn Awst 2014 fod camau wedi'u cymryd i ddelio â'r anawsterau ynghylch storio y gellid rhoi sylw iddynt ar unwaith ac y byddai'r pwyllgor yn gweld cynnydd wedi'i gofnodi ar sail y cynlluniau gweithredu yn Chwefror 2015. Symudwyd hyn wedyn i bwyllgor mis Mehefin i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar bob agwedd ar waith y Bwrdd Iechyd gyda'i gilydd.
58. Yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol cafwyd bod cabinet pwrpasol â chlo gan 97 y cant o'r cleifion a adolygwyd. Mae hyn yn cymharu â 94 y cant ledled Cymru. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gyfwelwyd ar y wardiau fod y cypyrddau clo'n effeithiol. Un mater a godwyd oedd bod wynebau gwyn ar rai cypyrddau fel y gall fod yn anodd gweld tabledi gwyn.

---

<sup>21</sup> Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, *Patient safety alert 20*, 28 Mawrth 2007.

- 
- 59.** Drwy gyflwyno peiriannau gwerthu awtomatig i storio a dosbarthu meddyginiaethau ar y wardiau, gellir cael gwell diogelwch a gwell trywyddau archwilio, a gellir rhyddhau amser staff fferyllo a nyrsio. Mae peiriannau gwerthu awtomatig yn nhri y cant o wardiau'r Bwrdd Iechyd (yn yr uned penderfyniadau clinigol a'r adran achosion brys yn Ysbyty Glangwili), o'i gymharu â'r cyfartaledd o wyth y cant ledled Cymru.
- 60.** Roedd yr hapwiriadau ledled Cymru o dan *Ymddiried mewn Gofal* wedi dangos hefyd fod anawsterau ynghylch oeri meddyginiaethau ar y wardiau. Yn ystod ein hymweliadau â wardiau, cawsom fod oergelloedd yn yr holl wardiau er nad oedd gweithdrefnau ar waith i fonitro tymheredd pob un o'r oergelloedd. Nid oedd larwm ar yr un o'r oergelloedd.
- 61.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â grŵp cenedlaethol a sefydlwyd i ymdrin â'r materion sy'n codi o'r hapwiriadau o dan *Ymddiried mewn Gofal*. Mae'r Grŵp Gweinyddu, Cofnodi, Adolygu a Storio Meddyginiaethau (MARRS) yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Fferyllo Cymru ac un o'i nodau yw cytuno ar fanylebau cenedlaethol ar gyfer oergelloedd a chypyrddau meddyginiaethau ar wardiau.

# Rhan 4

---

## Prosesau rheoli meddyginiaethau

Mae rhai agweddau da ar y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau ond mae risgiau yng nghyswllt trosglwyddo gwybodaeth rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, amrywiadau rhwng safleoedd a helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n briodol

## Gwybodaeth gan feddygon teulu ar gyfer derbyn cleifion

Mae trosglwyddo gwael ar wybodaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn peri risgiau i ddiogelwch ac aneffeithlonrwydd ac mae ansawdd gwybodaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng safleoedd

62. Mae'r rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn peri lefel uchel o risg yng nghyswllt rheoli meddyginiaethau. Wrth dderbyn cleifion, mae cyfathrebu da rhwng practis y meddyg teulu a'r ysbyty'n gallu atal gwallau ac anghywirdebau ynghylch meddyginiaethau pobl.
63. Mae **Arddangosyn 12** yn dangos asesiad gan y tîm fferylliaeth o ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan weithwyr mewn gofal sylfaenol ar gyfer derbyn cleifion, a gwblhawyd yn ystod yr adolygiad o fferylliaeth glinigol. Yn y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol, roedd canran y cleifion heb wybodaeth ar eu cyfer yn uwch nag yng ngweddill Cymru, ond roedd hyn wedi'i achosi'n llwyr bron gan lefel wael iawn y wybodaeth yn Ysbyty Llwynhelig <sup>22</sup>.

---

<sup>22</sup> Yr unig gleifion sydd wedi'u cynnwys yn y data hyn yw'r rheini a adolygwyd yn yr adolygiad o fferylliaeth glinigol a dderbyniwyd drwy feddyg teulu, felly mae Arddangosyn 12 yn cynnwys data am 57 o gleifion bwrdd iechyd Hywel Dda a 362 o gleifion ledled Cymru. Mae'r bosibl bod bwrdd iechyd Hywel Dda wedi llenwi'r rhan hon o'r offeryn fferylliaeth glinigol mewn ffordd ychydig yn wahanol i fyrdau iechyd eraill. Os derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth feddygon teulu, ond dim ond ar ôl gwneud cais gan y tîm fferylliaeth, cofnodwyd hyn o dan 'Dim gwybodaeth'.

Arddangosyn 12: Roedd ansawdd y wybodaeth am gleifion a ddarparwyd gan weithwyr gofal sylfaenol ar gyfer derbyn cleifion yn wael iawn yn Ysbyty Llwynhelyg, ar y lefel gyfartalog yn Ysbyty'r Tywysog Philip ac yn uwch na'r cyfartaledd yn ysbytai Bronglais a Glangwili

	Dim gwybodaeth	Gwybodaeth gyfyngedig	Gwybodaeth safonol	Gwybodaeth gynhwysfawr
Bronglais	33%	0%	0%	67%
Glangwili	26%	5%	37%	32%
Llwynhelyg	91%	5%	0%	5%
Y Tywysog Philip	47%	13%	20%	20%
<b>Hywel Dda</b>	56%	7%	17%	20%
<b>Cyfartaledd Cymru</b>	41%	18%	20%	22%

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Fferylliaeth Glinigol (log cleifion o 134 o gleifion)*

*Sylwer: Yr opsiynau oedd 'Dim gwybodaeth/ddim yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth yn y nodiadau', 'Gwybodaeth gyfyngedig: hanes cyffuriau anghyflawn', 'Gwybodaeth safonol: hanes cyffuriau cyflawn', 'Gwybodaeth gynhwysfawr: hanes cyffuriau cyflawn gan gynnwys gwybodaeth glinigol ategol a chanlyniadau profion perthnasol'.*

64. Yn ein harolwg, roedd 45 y cant o feddygon ysbyty, 12 y cant o staff fferyllol a 32 y cant o nyrsys yn y Bwrdd Iechyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod gwybodaeth ar gyfer derbyn cleifion gofal dewisol yn ddigonol. Ledled Cymru y canlyniadau oedd bod 37 y cant o feddygon, 26 y cant o staff fferyllol a 40 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ar gyfer cleifion achosion brys, dim ond 14 y cant o feddygon ysbyty, 10 y cant o staff fferyllol ac 11 y cant o nyrsys a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig/electronig ddigonol am feddyginiaethau presennol y cleifion. Roedd y canlyniadau hyn yr un fath bron â'r rheini ar gyfer Cymru gyfan.
65. Mewn cyfweiliadau â staff y Bwrdd Iechyd, cafwyd bod ansawdd y wybodaeth yr oedd cleifion yn dod â hi i'r ysbyty yn amrywio yn ôl a oeddent wedi'u derbyn ar gyfer gofal dewisol neu ofal o fath arall. Mae cleifion gofal dewisol yn cael eu cyfarwyddo yn yr asesiad cyn triniaeth i ddod ag unrhyw feddyginiaeth y maent yn ei chymryd yn rheolaidd i'r ysbyty ac maent hefyd yn cael gwybodaeth ysgrifenedig sy'n dweud yr un peth. Ond dywedodd staff y wardiau nad oedd cleifion bob amser yn cofio dod â'u meddyginiaethau. Fel arfer, yn achos cleifion sy'n cael eu derbyn ar gyfer gofal heblaw gofal dewisol, ni fydd meddygon teulu'n gwybod eu bod wedi'u derbyn ac felly ni fyddant yn darparu gwybodaeth ar gyfer eu derbyn. Mewn achosion o'r fath, bydd staff nyrsio yn gofyn i ffrindiau neu berthnasau'r claf ddod â'r meddyginiaethau i'r ysbyty o'i gartref.
66. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rhoi canllawiau i feddygon teulu am ba wybodaeth i'w darparu pan gaiff eu cleifion eu derbyn i ysbyty. Mae problemau wrth drosglwyddo gwybodaeth feddygol rhwng meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd yn faes sy'n peri risg i'r Bwrdd Iechyd. Roedd aelodau staff uwch yn cydnabod y risgiau hyn yn ystod cyfweiliadau ac roedd staff wedi sôn wrthym yn ystod ein hymweliadau â wardiau am ansawdd amrywiol y wybodaeth oddi wrth feddygon teulu. Nid yw staff fferyllol yn monitro nac yn archwilio ansawdd y wybodaeth a ddarperir yn rheolaidd ac nid oes mecanwaith ar gyfer rhoi adborth am unrhyw bryderon i bractisau meddygon teulu.

- 
- 67.** Pan fydd cleifion yn cyrraedd yr ysbyty â gwybodaeth gyfyngedig am eu meddyginiaethau, bydd timau fferylliaeth yn aml yn ffonio meddygfeydd meddygon teulu i gael hanes cyffuriau'r claf ond mae ansawdd y wybodaeth hon yn amrywio rhwng y naill bractis meddyg teulu a'r llall. Bydd rhai meddygon teulu'n darparu llythyr i'r claf sy'n rhestru ei holl feddyginiaethau ond yn achos meddygon teulu eraill bydd y technegydd fferyllfa neu nyrs arbenigol yn ffonio'r feddygfa i ofyn iddynt ffacsio gwybodaeth. Clywsom ei bod yn bosibl nad yw cleifion yn gwybod am yr holl feddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer ac nad ydynt yn cymryd yr holl feddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi ar eu cyfer yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym eu bod fel arfer yn cael y wybodaeth gywir o fewn 24 awr ond y gall hyn gymryd mwy o amser mewn rhai achosion. Roedd staff fferyllol yn ymwybodol bod ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan feddygon teulu'n amrywio ond nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw archwiliadau neu adborth i feddygon teulu.
- 68.** Mae'r system IHR yn system electronig sy'n cynnwys crynodeb o'r wybodaeth sy'n cael ei dal gan feddygon teulu am eu cleifion. Mae'r system IHR yn cael ei threialu ar gyfer cysoni meddyginiaethau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Drwy ddefnyddio'r system IHR gall fferyllwyr gael mynediad yn syth at wybodaeth sy'n cael ei dal gan feddygon teulu am feddyginiaethau cleifion. Mae gwerthusiadau a gwblhawyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn awgrymu bod defnyddio'r system IHR ar gyfer cysoni meddyginiaethau yn arbed saith munud o amser y fferyllfa am bob claf. Ar sail yr amcangyfrif hwn o saith munud ar gyfer yr amser a arbedir, pe byddai'r system IHR wedi'i defnyddio yn hanner y 43,573 o achosion brys a dderbyniwyd gan fwrdd iechyd Hywel Dda yn 2013-14, byddai hyn wedi gallu arbed tua 2,500 o oriau o amser y fferyllfa, sy'n cyfateb i 1.4 aelod staff fferyllol cyfwerth ag amser llawn<sup>23</sup>. O ystyried y posibilrwydd o arbed amser sylweddol a gwella diogelwch drwy ddefnyddio'r system IHR ar y wardiau ac mewn practisau meddygon teulu, mae'n bwysig gweithredu'n gyflymach i gyflwyno'r system IHR.

## Cysoni ac adolygu meddyginiaethau yn yr ysbyty

**Mae amseroldeb y cysoni ar feddyginiaethau'n dda ar y cyfan ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd ac mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael adolygiad cynhwysfawr er bod y cyfraddau'n is yn Ysbyty Glangwili**

- 69.** Proses gwirio yw cysoni meddyginiaethau, sy'n cael ei harwain gan fferyllwyr yn aml, i sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyflawn am feddyginiaethau'n dilyn y claf pan fydd yn dod i'r ysbyty neu'n ei adael. Mae'r *Professional Standards for Hospital Pharmacy Services* (y Safonau) yn datgan bod meddyginiaethau cleifion i gael eu hadolygu neu eu 'cysoni' o fewn 24 awr ar ôl eu derbyn, i osgoi newidiadau anfwriadol yn eu meddyginiaeth<sup>24</sup>. O'r 133 o gleifion a adolygwyd yn ystod ein harchwiliad o fferylliaeth glinigol lle'r oedd dyddiad cysoni meddyginiaethau wedi'i gofnodi, roedd 94 (71 y cant) wedi cael adolygiad o'u meddyginiaethau o fewn un diwrnod ar ôl eu derbyn<sup>25</sup>. Ar safleoedd ysbytai penodol, roedd y ffigur yn amrywio o 58 y cant yn Ysbyty Glangwili i 89 y cant yn Ysbyty Llwynhelyg. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan oedd 64 y cant.

---

<sup>23</sup> Mae'r cyfrifiad hwn yn cymharu sefyllfa lle defnyddir y system IHR ar gyfer 50 y cant o'r achosion brys a dderbynnir, â sefyllfa lle na ddefnyddir y system IHR ar gyfer unrhyw achosion brys a dderbynnir. Cymerir hefyd fod 1 aelod staff WTE yn gweithio 37.5 awr yr wythnos, 47 wythnos y flwyddyn.

<sup>24</sup> Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol, *Medicines reconciliation: A guide to implementation*.

<sup>25</sup> Mae'r ffigur yn dangos nifer y cleifion yr oedd dyddiad eu hadolygiad o feddyginiaethau yr un diwrnod â'u dyddiad derbyn neu'r diwrnod wedyn.

- 70.** Yn ystod eu harosiad mewn ysbyty, dylai meddyginiaethau cleifion gael eu hadolygu'n rheolaidd. Mewn ymateb i'n harolwg, roedd 57 y cant o staff fferyllol, 56 y cant o feddygon a 59 y cant o feddygon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod 'cleifion yn cael adolygiadau o'u meddyginiaethau (gan unrhyw aelod o'r tîm amlddisgyblaethol) yn aml yn ystod eu harosiad yn yr ysbyty'. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r rhai ar gyfer Cymru gyfan lle'r oedd 65 y cant o staff fferyllol, 67 y cant o feddygon a 67 y cant o nyrsys wedi cytuno neu gytuno'n gryf â'r datganiad. Roedd ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol yn dangos bod bron y cyfan o'r adolygiadau hyn o feddyginiaethau'n cael eu cyflawni gan fferyllwyr, ac mai dim ond chwech y cant sy'n cael eu cyflawni gan feddygon ledled Cymru. Mae **Arddangosyn 13** yn rhoi crynodeb o'r data allweddol am adolygiadau o feddyginiaethau o'n hadolygiad o fferylliaeth glinigol.

**Arddangosyn 13: O'u cymharu â gweddill Cymru, roedd cyfran fwy o gleifion bwrdd iechyd Hywel Dda yn cael adolygiad cynhwysfawr o'u meddyginiaethau. Roedd canran y cleifion lle nodwyd bod anhawster wrth gysoni yn amrywio'n fawr**

	% y cleifion sy'n cael adolygiad cynhwysfawr o'u meddyginiaethau	% yr adolygiadau lle cafwyd bod anhawster ynghylch cysoni neu gyffuriau
Bronglais	100	21
Glangwili	24	24
Llwynhelyg	51	0
Y Tywysog Philip	76	41
<b>Cyfartaledd Cymru</b>	<b>44</b>	<b>20</b>

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Fferylliaeth Glinigol (log cleifion o 134 o gleifion)*

## Siartiau rhoi meddyginiaethau

Roedd siartiau cyffuriau safonol gan yr holl gleifion yn ein sampl ac roedd eu statws alergedd wedi'i gofnodi er bod y timau fferylliaeth wedi diweddarau'r statws alergedd yn achos pump o bob 100 o'r cleifion a adolygwyd

- 71.** Mae'r broses rheoli meddyginiaethau mewn ysbytai'n dibynnu'n helaeth ar gofnodi diogel ac effeithiol. Dylai staff ddefnyddio siartiau cyffuriau i gofnodi'r meddyginiaethau a ragnodwyd ar gyfer cleifion, a'r dosau gofynnol ac i ddangos yn glir yr amseroedd y rhoddwyd y dosau. Mae siart cyffuriau safonol wedi'i datblygu yng Nghymru o'r enw Cofnod Rhoi Meddyginiaethau Cleifion Mewnol ac mae wedi'i chymeradwyo gan Goleg Brenhinol y Meddygon. Dylid defnyddio siart ar wahân o'r enw Cofnod Rhoi Meddyginiaethau Arhosiad Hir ar gyfer cleifion sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnodau hwy. Yn ein hadolygiad o siartiau cyffuriau yn y Bwrdd Iechyd, cafwyd bod y ffurf safonol i gleifion mewnol wedi'i darparu ar gyfer yr holl gleifion. Yng Nghymru gyfan, roedd y ffurf safonol wedi'i darparu ar gyfer 93.3 y cant o gleifion, y Cofnod Rhoi Meddyginiaethau Arhosiad Hir wedi'i ddarparu ar gyfer 6.4 y cant ohonynt a siart ar ffurf ansafonol wedi'i darparu ar gyfer 0.3 y cant.
- 72.** Yn ogystal â defnyddio'r Cofnod Rhoi Meddyginiaethau Cleifion Mewnol, mae staff y wardiau wedi rhoi prawf yn ddiweddar ar ddefnyddio ffurflen ychwanegol i fonitro'r rhesymau manwl dros fethu dosau. Mae'r ffurflen hon yn ddiweddiariad o'r un a gafodd ei datblygu a'i defnyddio'n wreiddiol yn



---

Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin. Caiff y ffurflen hon ei phinio ar flaen y siart cyffuriau. Ceir gwerthusiad o'r ffurflen a phenderfyniad ynghylch parhau i'w defnyddio cyn hir.

- 73.** Pa fath bynnag o siart cyffuriau a ddefnyddir, dylid cael cofnod o alergeddau'r claf a'i sensitifrwydd i feddyginiaethau. Mae adweithiau alergaidd yn risg ddirifol i ddiogelwch cleifion ac yn achos cyffredin i wallau ynghylch cyffuriau. Yn ein hadolygiad o siartiau cyffuriau yn y Bwrdd Iechyd, cafwyd bod statws alergeddau 97 y cant o'r cleifion wedi'i gofnodi ar y siart cyffuriau. Mae hyn yn cymharu â 98 y cant ar gyfer Cymru gyfan. Yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol, nodwyd 33 o achlysuron lle'r oedd timau fferylliaeth wedi diweddarau statws alergeddau'r claf, sy'n cyfateb i 5.2 o newidiadau am bob 100 o gleifion a adolygwyd. Roedd hyn yn agos i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (pum newid am bob 100 o gleifion a adolygwyd).

## Prosesau'r llyfr fformiwlâu

Mae prosesau llyfr fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd yn gyson at ei gilydd â gweddill Cymru a dywedodd meddygon wrthym ei bod yn haws cael gafael ar gopïau caled o Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar y wardiau na chopïau electronig

- 74.** Llyfr fformiwlâu yw'r rhestr o feddyginiaethau a ffeirir gan fwrdd iechyd y gall staff ei defnyddio fel dogfen gyfeirio i sicrhau eu bod yn rhagnodi'n ddiogel a chosteffeithiol. Mae llyfr fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd ar gael ar y fewnwyd ac mae wedi'i integreiddio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd. Dywedwyd wrthym fod y broses ar gyfer diweddarau'r llyfr fformiwlâu wedi gwella a bod trafodaethau teg ac agored yng nghyfarfodydd Grŵp Clinigol y Llyfr Fformiwlâu; os na fydd y grŵp hwn yn gallu dod i benderfyniad, gwneir penderfyniad terfynol gan y GRhM.
- 75.** Mewn ymateb i'r arolwg ar gyfer yr archwiliad hwn, dywedodd 49 y cant o staff meddygol a 76 y cant o nyrsys eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y llyfr fformiwlâu (a'r dogfennau/canllawiau ategol) yn cwrdd â'u hanghenion. Mae hyn yn cymharu â 45 y cant o staff meddygol a 74 y cant o nyrsys ledled Cymru. Dywedwyd wrthym fod rhai meddygon yn dymuno rhagnodi meddyginiaethau nad ydynt yn y llyfr fformiwlâu. Dywedodd fferyllwyr eu bod yn treulio amser yn cysylltu â meddygon i'w hysbysu nad yw meddyginiaeth benodol ar gael, yn enwedig gan fod trosiant y meddygon ysbyty'n uchel. Mae rhywfaint o'r rhagnodi mewn ysbytai sydd y tu allan i'r llyfr fformiwlâu yn dod i'r amlwg wedi i'r claf gael ei ryddhau pan fydd yn dod i sylw fferyllwyr mewn gofal sylfaenol.
- 76.** Rhoesom sgôr i sefydliadau am nifer y mecanweithiau sydd ar waith ganddynt i rannu gwybodaeth â staff am newidiadau yn y llyfr fformiwlâu<sup>26</sup>. Cafodd y Bwrdd Iechyd sgôr o 41 allan o sgôr bosibl o 50 o'i chymharu â sgôr gyfartalog o 38 ar gyfer Cymru gyfan.
- 77.** Mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) yn gyhoeddiad sy'n darparu gwybodaeth gyson a chyfredol am feddyginiaethau i ragnodwyr, fferyllwyr, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae'n bwysig bod staff ar y wardiau'n gallu cael gafael yn rhwydd ar y fersiwn ddiweddaraf o'r BNF. Mae **Arddangosyn 14** yn dangos canran y staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau am y BNF ar gyfer adegau pan fyddant ar y wardiau.

---

<sup>26</sup> Roeddem wedi ystyried a yw pwyllgorau'n rhaedru eu penderfyniadau i staff, a yw bwletinâu'n cael eu rhannu, a yw gwybodaeth fanwl am bob cyffur yn cael ei rhannu, ac a yw'r wefan yn cael ei diweddarau.



#### Arddangosyn 14: Dywedodd staff meddygol yn y Bwrdd Iechyd ei bod yn haws cael gafael ar gopiâu caled o'r BNF na chopïau electronig

	Bwrdd Iechyd	Cymru
Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r BNF ar gael yn rhwydd ar ffurf copi caled	74%	60%
Gallaf weld y BNF yn rhwydd drwy ddefnyddio cyfrifiadur	37%	40%
Byddaf yn tueddu i edrych ar y BNF drwy ddefnyddio ffôn clyfar	13%	22%

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o staff meddygol*

## Rhagnodi electronig

Byddai rhagnodi electronig yn gallu dod â manteision amrywiol o ran diogelwch ac effeithlonrwydd ond nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ward mewn ysbyty aciwt

78. Rhagnodi electronig yw creu, trosglwyddo a ffeilio presgripsiwn am feddyginiaeth ar gyfrifiadur. Mae systemau rhagnodi electronig ym maes gofal eilaidd yn gallu caniatáu trosglwyddo gwybodaeth yn gosteffeithiol mewn ffordd gyflymach a mwy diogel<sup>27</sup>. Mae systemau o'r fath yn cynnig cryn gyfle i ddylanwadu ar ymddygiad rhagnodi clinigwyr gofal eilaidd drwy gadarnhau ac atgoffa staff am flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rhagnodi.
79. Nid yw'r un o wardiau'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhagnodi electronig. Mae hyn yn gyson â'r sefyllfa ledled Cymru, er bod rhai byrddau iechyd wrthi'n cyflwyno rhagnodi electronig mewn adrannau cleifion allanol ac yn ceisio sicrhau cyllid i gyflwyno rhagnodi electronig ar gyfer cleifion mewnol.

## Rhagnodi anfeddygol

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddata cymharol dda am ragnodwyr anfeddygol ond nid yw staff fferyllol yn rhagnodi'n rheolaidd ac mae lle i gryfhau'r fframwaith polisi mewn perthynas â rhagnodi anfeddygol

80. Drwy hyfforddi fferyllwyr, nyrsys a staff anfeddygol eraill yn rhagnodwyr, gellir ei gwneud yn haws i gleifion gael gafael ar gyngor ac arbenigedd ynghylch meddyginiaethau, cyfrannu at weithio mwy hyblyg drwy dimau a symleiddio dulliau gofal<sup>28</sup>.
81. Roedd byrddau iechyd ledled Cymru wedi'i chael yn anodd darparu data cynhwysfawr i ni am nifer y rhagnodwyr anfeddygol ymhlith eu staff, ac roeddent yn ei chael yn anodd iawn rhoi gwybod am y nifer o blith y staff hyn a oedd yn arfer eu sgiliau'n rheolaidd. Ledled Cymru, mae byrddau iechyd wedi cofnodi bod ganddynt rhwng 44 a 303 o ragnodwyr atodol ar waith. Roedd pedwar bwrdd iechyd wedi darparu gwybodaeth am gyfran y nyrsys a fferyllwyr a oedd yn rhagnodi'n rheolaidd, ond dim ond dau a oedd wedi cofnodi'r wybodaeth hon am grwpiau staff anfeddygol eraill. Ym mwrdd iechyd Hywel Dda ceir 26 o nyrsys, naw fferyllydd a 10 o weithwyr anfeddygol proffesiynol eraill sy'n

<sup>27</sup> 1000 o Fywydau a Mwy, *Achieving prudent healthcare in NHS Wales*, Mehefin 2014.

<sup>28</sup> Dim ond mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd y mae rhagnodwyr atodol yn gallu rhagnodi. Mae rhagnodwyr annibynnol yn gallu rhagnodi ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol sydd o fewn eu maes cymhwysedd.

rhagnodwyr annibynnol neu atodol. O blith y rhain, mae 18 o nyrsys, chwe fferylllydd a dau weithiwr anfeddygol proffesiynol arall yn rhagnodi'n rheolaidd.

- 82.** Mewn ymateb i'n harolwg, roedd 11 y cant o staff fferyllol, 29 y cant o feddygon a 22 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod staff sydd wedi'u hyfforddi mewn rhagnodi anfeddygol yn arfer y sgiliau hyn yn rheolaidd. Mae hyn yn cymharu â 29 y cant o staff fferyllol, 28 y cant o feddygon a 33 y cant o nyrsys ledled Cymru. Roedd ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol yn dangos mai anaml y mae staff fferyllol yn rhagnodi ar y wardiau. Yn y Bwrdd Iechyd, dim ond un presgripsiwn yr oedd staff fferyllol wedi'i ysgrifennu yn ystod yr archwiliad a oedd wedi adolygu 629 o gleifion (0.2 y cant). Drwy Gymru gyfan, roedd y gyfran yn uwch, sef 1.5 presgripsiwn am bob 100 o gleifion a adolygwyd.
- 83.** Mae rhagnodwyr annibynnol wedi'u lleoli yn yr uned dderbyn yn Ysbyty Glangwili lle gallant ychwanegu neu dynnu cyffuriau o siart y claf. Maent wedi'u lleoli hefyd yn y clinig eiddilwch yn Ysbyty'r Tywysog Philip lle gallant helpu i wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau wrth ofalu am y claf. Roedd Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau yn awyddus i hyfforddi rhagor o fferyllwyr yn rhagnodwyr annibynnol ond dywedwyd wrthym fod fferyllwyr yn amharod i ysgwyddo hyn o ystyried y galwadau ar y gwasanaeth presennol sy'n cael ei ddarparu gan staff fferyllol.
- 84.** Mae **Arddangosyn 15** yn cymharu'r Bwrdd Iechyd â byrddau iechyd eraill yng Nghymru yng nghyswllt polisïau ar ragnodi anfeddygol.

**Arddangosyn 15: Roedd y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dau o'r pedwar polisi allweddol ar ragnodi anfeddygol**

A yw'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r polisïau hyn?	Y Bwrdd Iechyd hwn	Cymru
Meini prawf ar gyfer dewis staff i'w hyfforddi'n rhagnodwyr anfeddygol	Nac ydyw	Pum bwrdd iechyd wedi'i fabwysiadu
Mecanwaith ar gyfer cofnodi rhagnodwyr anfeddygol a rhannu'r rhestr hon â chyfarwyddiaethau priodol	Ydyw	Pob bwrdd iechyd wedi'i fabwysiadu
Mecanweithiau cynnal i sicrhau bod rhagnodwyr anfeddygol yn diweddarau eu gwybodaeth	Ydyw	Pob bwrdd iechyd wedi'i fabwysiadu
Gofynion cymhwysedd i barhau'n rhagnodwr anfeddygol cymwys	Nac ydyw	Tri bwrdd iechyd wedi'i fabwysiadu

*Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Swyddfa Archwilio Cymru*

- 85.** Mewn ymateb i'n harolwg, roedd 14 y cant o staff fferyllol, 14 y cant o feddygon a 24 y cant o nyrsys ledled Cymru yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod 'rheolaethau da ar waith gan y Bwrdd Iechyd i fonitro perfformiad rhagnodwyr anfeddygol'. Yn y Bwrdd Iechyd, roedd 12 y cant o staff fferyllol, 16 y cant o feddygon a 16 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf<sup>29</sup>. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym mai ei brif fecanwaith ar gyfer monitro cymhwysedd rhagnodwyr anfeddygol yw system cofnodi digwyddiadau Datix.

<sup>29</sup> Roedd un rhan o dair o staff fferyllol a hanner y meddygon a nyrsys wedi rhoi 'Ddim yn gwybod' yn ateb i'r cwestiwn hwn.

---

## Rhoi meddyginiaethau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau'n syth mewn ymateb i *Ymddiried mewn Gofal* ac Ysbyty'r Tywysog Philip oedd yr unig safle yn y Bwrdd Iechyd lle cawsom siartiau cyffuriau nad oeddent yn dangos yn glir a oedd dos wedi'i roi

86. Roedd *Ymddiried mewn Gofal* wedi tynnu sylw at broblemau difrifol yn y ffordd o roi a chofnodi meddyginiaethau. Mae pob sefydliad wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i *Ymddiried mewn Gofal*. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i ymdrin â'r materion a godwyd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd wythnosol ar y cyd rhwng staff meddygol, nyrsys, fferyllwyr a'r Prif Swyddog Gweithredu a gwell canllawiau a hyfforddiant ar ddefnyddio tawelyddion a galluedd meddyliol. Mae'r holl staff fferyllol wedi cwblhau cwrs ar-lein ar broffesiynoldeb sy'n cael ei redeg gan Ganolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru.
87. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhedeg rowndiau cyffuriau mewn ffordd sy'n ceisio lleihau gwallau ac ymyrraeth wrth ddosbarthu a rhoi meddyginiaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dynodi rhannau penodol o wardiau'n Barthau Diogelwch Meddyginiaethau, drwy ddefnyddio drysau coch, llenni coch ac arwyddion. Y bwriad wrth bennu'r parthau hyn yw darparu man lle nad oes ymyriadau lle gall staff ganolbwyntio ar dasgau sy'n ymwneud â meddyginiaethau. Mae'r parthau diogelwch yn rhan o'r fenter Seeing Red sydd wedi'i threialu yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg sydd hefyd yn cynnwys tabardau coch i'w gwisgo gan staff nyrsio wrth gyflawni tasgau rheoli meddyginiaethau. Mae neges ar y tabardau sy'n galw am beidio â thynnu sylw staff oddi wrth eu gwaith ar feddyginiaethau. Mae'r fenter hon i gael ei rhoi ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd.
88. Mewn ymateb i'n harolwg, roedd 83 y cant o staff fferyllol, 37 y cant o feddygon a 62 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod 'y sefydliad wedi cymryd camau priodol mewn perthynas â'r adroddiad *Ymddiried mewn Gofal* (adroddiad Andrews)'. Mae hyn yn debyg i'r canlyniadau ar gyfer Cymru o 82 y cant o staff fferyllol, 34 y cant o feddygon a 66 y cant o nyrsys.
89. Mae *Ymddiried mewn Gofal* yn cyfeirio at ohirio neu fethu dosau, ac at broblemau penodol sy'n ymwneud ag anallu cleifion sy'n ddryslyd neu'n methu â symud o gwmpas i gymryd eu tabledi heb gael eu goruchwyllo ac felly'n peidio â chael eu meddyginiaeth yn brydlon, os o gwbl. Gellir cael rhesymau dilys dros fethu â rhoi dosau, os yw'r claf yn gwrthod cymryd ei feddyginiaethau, er enghraifft. Fodd bynnag, mae dosau'n cael eu methu weithiau am nad yw'r cyffur ar gael ar y ward ac weithiau nid yw'n glir am fod y cofnodi'n wael ar y siart cyffuriau a yw dos wedi'i fethu neu beidio. Mae'r sefyllfa olaf yn beryglus iawn oherwydd, os nad yw'r siart cyffuriau wedi'i llenwi'n briodol, mae perygl i'r claf gael ei feddyginiaeth ddwywaith. Roedd ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol yn cynnwys 134 o gleifion dros gyfnod o 24 awr mewn wyth ward yn y Bwrdd Iechyd. Roedd yr archwiliad wedi canfod 14 o achlysuron lle nad oedd cyffur ar gael a 12 o achlysuron lle nad oedd yn glir a oedd dos wedi'i fethu neu beidio. Mae fferyllwyr wedi cynnal eu harchwiliadau wythnosol eu hunain mewn un ward ym mhob ysbyty bob wythnos gan gynnwys pum claf ym mhob ward i weld pa nifer o ddosau a oedd heb eu rhoi dros y 24 awr flaenorol. Mae trafodaeth yn parhau o fewn y Bwrdd Iechyd ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio'r data o'r archwiliadau wythnosol i wella ymarfer.
90. Mae [Arddangosyn 16](#) yn dangos dadansoddiad o'r rhesymau dros beidio â rhoi meddyginiaethau i gleifion ac yn cymharu hyn â'r sefyllfa ledled Cymru.

Arddangosyn 16: Dim ond yn Ysbyty'r Tywysog Philip yr oedd enghreifftiau o achlysuron lle nad oedd yn glir a oedd dos wedi'i fethu neu beidio.

Y rheswm nad oedd cleifion wedi cael eu meddyginiaeth							
	Cais gan ragnodydd	Y claf heb fod ar y ward	Y claf heb allu i gymryd meddyginiaeth / dim mynediad	Y claf wedi gwrthod meddyginiaeth	Y feddyginiaeth heb fod ar gael	Rheswm arall: gweler y nodiadau	Yn aneglur a oedd y dos wedi'i fethu neu beidio
Cod ar y siartiau	X	2	3	4	5	6	Dim cod
Bronglais	12%	0%	7%	76%	5%	0%	0%
Glangwili	10%	0%	21%	34%	14%	21%	0%
Y Tywysog Philip	25%	0%	18%	34%	4%	4%	15%
Llwynhelyg	0%	0%	0%	68%	14%	19%	0%
<b>Hywel Dda</b>	<b>15%</b>	<b>0%</b>	<b>12%</b>	<b>50%</b>	<b>8%</b>	<b>9%</b>	<b>6%</b>
Cyfartaledd Cymru	18%	0%	8%	45%	8%	9%	12%

*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fferylliaeth glinigol (log cleifion o 134 o gleifion)*

91. Mae safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn datgan: 'policy must be in place and adhered to in assessing the competence of an individual to support a patient in taking medication'. Mae'r safonau hynny'n egluro hefyd beth yw cyfrifoldeb staff nyrsio o ran asesu cymhwysedd cleifion i roi eu meddyginiaethau eu hunain. Ledled Cymru roedd ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol wedi canfod mai prin iawn oedd y cleifion a oedd yn rhoi eu meddyginiaethau eu hunain. O blith 994 o gleifion ledled Cymru, dim ond 12 a oedd yn rhoi eu meddyginiaeth eu hunain a dim ond tri o'r rhain a oedd wedi cael asesiad risg. Roedd 120 pellach o gleifion yn rhoi eu meddyginiaeth eu hunain mewn ffordd gyfyngedig. Yn y Bwrdd Iechyd hwn, roedd dau glaf yn rhoi eu meddyginiaeth eu hunain ac roedd 21 yn gwneud hynny mewn ffordd gyfyngedig. Roedd un claf wedi cael asesiad risg. Yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol, cafwyd mai dim ond pedwar y cant o'r wardiau yn y Bwrdd Iechyd sydd â gweithdrefn ar gyfer cleifion sy'n rhoi eu meddyginiaeth eu hunain (o'i gymharu â 25 y cant yng Nghymru gyfan). Er hynny, dywedwyd wrthym fod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu polisi ar gleifion sy'n rhoi eu meddyginiaeth eu hunain i'w ddilyn ym mhob maes lle mae cleifion mewnol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod y polisi'n cynnwys offeryn asesu risg safonol a bod hwn yn cael ei gyflwyno fesul ward wrth i dimau'r wardiau ddilyn yr hyfforddiant cysylltiedig. Mae'r polisi a'r offeryn yn canolbwyntio'n benodol ar roi inswlin gan y claf ei hun a chytunwyd ar hyn wrth weithredu'r rhaglen Gofal Glwcos yn y Bwrdd Iechyd.

---

## Helpu cleifion i gydymffurfio â chyfarwyddiadau

Mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud mwy o lawer i asesu anghenion cleifion o ran cydymffurfio â chyfarwyddiadau ac i addysgu a helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n briodol

92. Mae astudiaethau<sup>30</sup> wedi dangos nad yw cymaint â hanner yr holl gleifion yn cymryd eu meddyginiaethau fel y bwriadwyd. Mae goblygiadau pwysig hefyd wrth beidio â chymryd meddyginiaethau'n briodol i ddiogelwch y claf a gall arwain at wastraff sylweddol, yn enwedig o gofio bod y Bwrdd lechyd wedi gwario £26.8 miliwn ar feddyginiaethau yn 2013-14. Gall hyn ddigwydd am nad yw cleifion yn deall yn llwyr y chyfarwyddiadau ar gyfer cymryd eu meddyginiaethau neu am nad oes ganddynt allu corfforol i roi'r meddyginiaethau eu hunain. Dylai cyrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd a dynodi cleifion sydd ag angen cymorth ychwanegol i gymryd eu meddyginiaethau.
93. Roeddem wedi rhoi sgôr i sefydliadau ar ôl ystyried y camau y maent yn eu cymryd i helpu pobl i gydymffurfio â chyfarwyddiadau wrth gymryd eu meddyginiaethau<sup>31</sup>. Cafodd y Bwrdd lechyd sgôr o 12 allan o'r 32 o bwyntiau posibl, o'i chymharu â sgôr gyfartalog o 17 yng Nghymru gyfan. Rhai o'r bylchau y mae'n bwysig eu llenwi yn y Bwrdd lechyd yw targedu defnyddwyr a grwpiau lle mae anawsterau o ran cydymffurfio'n gyffredin neu sefydlu grwpiau addysg meddyginiaethau ar gyfer y cleifion hyn. Anaml y bydd y Bwrdd lechyd yn asesu cleifion i sicrhau mai'r cynwysyddion a phecynnau meddyginiaeth a roddwyd yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer rhoi eu meddyginiaeth eu hunain (er enghraifft, drwy ddarparu cynwysyddion hawdd eu hagog), ac anaml y mae siartiau atgoffa'n cael eu darparu i gleifion sy'n dilyn rheolwaith cymhleth ar gyfer cymryd meddyginiaeth. Yn ein cyfweiliadau â staff y wardiau, cawsom wybod y byddent yn defnyddio amrywiaeth o dactegau os oedd cleifion yn gwrthod meddyginiaeth ac mae cleifion yn cael eu cysuro, eu cynghori a'u hannog i gymryd eu meddyginiaethau yn unol â'r presgripsiwn. Byddent yn cynnig meddyginiaethau ar ffurfiau gwahanol fel syrop neu batsys os oedd y claf yn ei chael yn anodd eu llyncu.
94. Ledled Cymru, cawsom fod timau fferylliaeth yn ei chael yn anodd treulio digon o amser yn addysgu cleifion ynghylch eu meddyginiaeth. Yn yr adolygiad o fferylliaeth glinigol ledled Cymru, cawsom mai dim ond chwech y cant o gleifion neu ofalwyr a oedd wedi'u haddysgu ynghylch rhyw agwedd ar eu meddyginiaeth. Yn y Bwrdd lechyd, y ffigur cyfatebol oedd pedwar y cant.
95. Roedd y canlyniadau o'n hadolygiad o fferylliaeth glinigol yn dangos bod anawsterau o ran cydymffurfio yn achos 22 y cant o gleifion a adolygwyd yn y Bwrdd lechyd. Roedd hyn yn amrywio o 0 y cant yn Ysbyty Llwynhelyg i 41 y cant yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Yng Nghymru gyfan, y cyfartaledd oedd 20 y cant.
96. Ledled Cymru, nid yw fferyllfeydd ysbytai'n gwneud digon at ei gilydd i ddarparu gwybodaeth am feddyginiaethau i grwpiau cleifion sydd ag anghenion penodol o ran gwybodaeth. O'r 18 o ysbytai yn ein harolwg, mae pump yn darparu gwybodaeth benodol ar gyfer plant ifanc, mae saith yn darparu ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg, ac mae wyth yn darparu gwybodaeth am feddyginiaethau mewn ieithoedd heblaw'r Saesneg. Yn y Bwrdd lechyd drwyddo draw, mae'r ddarpariaeth o wybodaeth yn gymysg. Nid yw fferyllfeydd y Bwrdd lechyd yn darparu gwybodaeth benodol ar gyfer plant ifanc, a

---

<sup>30</sup> 1000 o Fywydau a Mwy, *Achieving prudent healthcare in NHS Wales*, Mehefin 2014.

<sup>31</sup> Roeddem wedi ystyried a yw cleifion yn cael eu hasesu ar sail eu gallu i agor cynwysyddion, a yw cleifion yn cael eu cwnsela ynghylch cymryd meddyginiaeth gymhleth ac uchel ei risg, a oes defnydd o siartiau atgoffa a systemau monitro dosau, a roddir gwybodaeth ysgrifenedig a dargedir, a yw grwpiau addysg wedi'u sefydlu ac a yw meddygon teulu'n cael eu hysbysu am anawsterau cleifion yng nghyswllt dilyn chyfarwyddiadau ar gymryd meddyginiaethau.

dim ond ysbytai Glangwili a'r Tywysog Philip sy'n cynnig cymorth penodol i gleifion sydd â nam ar eu golwg. Mae'r holl ysbytai heblaw Ysbyty Llwynhelyg yn helpu cleifion drwy ddarparu deunydd mewn ieithoedd heblaw'r Saesneg.

- 97.** Mae'r *Professional Standards for Hospital Pharmacy Services* (y Safonau) yn datgan y dylai cleifion allu galw llinell gymorth i drafod eu meddyginiaethau. Gall hyn fod yn bwysig iawn i helpu cleifion a ryddhawyd sy'n ansicr ynghylch eu rheolwaith ar gyfer cymryd meddyginiaethau. Daethom i'r casgliad bod rhai llinellau cymorth mewn fferyllfeydd yn cael eu tanddefnyddio er gwaethaf eu pwysigrwydd o ran helpu cleifion i reoli eu meddyginiaethau. Ledled Cymru, roedd y defnydd o linellau cymorth yn amrywio rhwng chwech a 66 o gysylltiadau am bob 100 o oriau yr oeddent yn agored (y cyfartaledd yw 32 o gysylltiadau). Mae **Arddangosyn 17** yn rhoi crynodeb o'r data allweddol am linellau ffôn fferyllfeydd sydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd. Mae llinellau cymorth ar gael i gleifion yn ysbytai Bronglais, Llwynhelyg a'r Tywysog Philip ond nid yn Ysbyty Glangwili<sup>32</sup>. Er nad yw'n agored ar benwythnosau, ceir defnydd da o'r llinell gymorth yn Ysbyty Llwynhelyg lle mae nifer y cysylltiadau'n ddwywaith y gyfradd ar gyfer Cymru gyfan.

**Arddangosyn 17:** Er nad yw'n agored ar benwythnosau, mae mwy o ddefnydd ar y llinell gymorth yn Ysbyty Llwynhelyg na'r rheini yn ysbytai Bronglais a'r Tywysog Philip

	Cyfanswm yr oriau agor (Llun-Gwe)	Cyfanswm yr oriau agor (Sad-Sul)	Nifer cyfartalog y cysylltiadau am bob 100 o oriau agor
Bronglais	43	4	6
Llwynhelyg	40	0	63
Y Tywysog Philip	43	3	13
<b>Cyfartaledd Cymru</b> <sup>33</sup>	<b>40</b>	<b>4</b>	<b>32</b>

*Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Craidd Swyddfa Archwilio Cymru*

## Cymorth wrth ryddhau cleifion

Mae risgiau i ddiogelwch ac aneffeithlonrwydd yn gysylltiedig â chyfnewid gwael ar wybodaeth wrth ryddhau cleifion er bod nifer yr adolygiadau o feddyginiaeth wrth ryddhau'n uwch na'r cyfartaledd

- 98.** Mae'n arfer da i staff ysbytai ddechrau cynllunio ar gyfer rhyddhau'r claf mor gynnar â phosibl.<sup>34</sup> Drwy amcangyfrif dyddiad ei ryddhau, gellir sicrhau bod yr holl staff yn gweithio ar sail yr un amserlen ac atal oedi diangen. Yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol ledled Cymru, cawsom fod dyddiad rhyddhau wedi'i amcangyfrif ar gyfer 47 y cant o'r cleifion a adolygwyd. Roedd y ffigur o 46 y cant ar gyfer y Bwrdd Iechyd hwn yn agos iawn i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

<sup>32</sup> Er nad oes llinell ffôn ar wahân, mae rhif ffôn yr adran fferyllol yn cael ei roi i gleifion yn Ysbyty Glangwili.

<sup>33</sup> Mae'r cyfartaledd ar gyfer Cymru wedi'i gyfrifo ar sail 12 o safleoedd ysbyty lle mae gwasanaeth llinell gymorth ar gael. Mae chwe safle nad ydynt yn darparu llinell gymorth ar wahân, ond mae tri ohonynt yn cynnig rhif cyswllt i gleifion rhag ofn y bydd problemau'n codi ynghylch meddyginiaethau ar ôl eu rhyddhau.

<sup>34</sup> Y Coleg Meddygaeth Frys, *The Silver Book: Quality Care for Older People with Urgent and Emergency Care Needs*, Mehefin 2012.



99. Gellir cael oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty am wahanol resymau. Mae **Arddangosyn 18** yn rhoi crynodeb o farn meddygon, nyrsys a staff fferyllol am yr achosion mwyaf cyffredin i oedi wrth ryddhau cleifion sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith er mwyn deall y gwahanol safbwyntiau sydd wedi'u mynegi isod ac i ddeall y gwir resymau dros oedi wrth ryddhau cleifion, er mwyn symleiddio prosesau rhyddhau.

**Arddangosyn 18: Roedd barn wahanol gan staff fferyllol, meddygon a nyrsys am yr achosion mwyaf cyffredin i oedi wrth ryddhau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau**

	Barn staff fferyllol	Barn meddygon	Barn nyrsys
1 (mwyaf cyffredin)	Aros i bresgripsiwn gael ei ysgrifennu	Aros i feddyginiaethau gael eu darparu yn y fferyllfa	Aros i feddyginiaethau gael eu darparu yn y fferyllfa
2	Aros i feddyginiaethau gael eu darparu yn y fferyllfa	Aros i feddyginiaethau gael eu cyflenwi i'r ward	Aros i bresgripsiwn gael ei ysgrifennu
3	Aros i feddyginiaethau gael eu cyflenwi i'r ward	Aros i bresgripsiwn gael ei ysgrifennu	Aros i feddyginiaethau gael eu cyflenwi i'r ward
4	Aros i'r presgripsiwn gael ei wirio gan glinigydd	Aros am gasglu'r meddyginiaethau i fynd allan ar y ward	Aros i'r presgripsiwn gael ei wirio gan glinigydd
5	Aros am gasglu'r meddyginiaethau i fynd allan ar y ward	Aros i'r presgripsiwn gael ei wirio gan glinigydd	Aros am gasglu'r meddyginiaethau i fynd allan ar y ward

*Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o fferyllwyr a staff meddygol*

100. Wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, mae'r rhyngwyneb rhwng yr ysbyty a meddyg teulu'r claf yn hanfodol i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel ac effeithiol. Mae'r Safonau'n datgan y dylai'r trefniadau sicrhau bod gwybodaeth gywir am feddyginiaethau'r claf yn cael ei throsglwyddo i'r gweithiwr/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymgymryd â gofal am y claf ar adeg y trosglwyddo. Mae templed safonol gan bob un o ysbytai'r Bwrdd Iechyd sy'n nodi'r wybodaeth sydd i'w darparu i feddygon teulu pan gaiff claf ei ryddhau, ond dim ond ysbytai Bronglais a'r Tywysog Philip sy'n ei ddefnyddio ar gyfer yr holl arbenigaethau. Yng Nghymru, mae templed tebyg yn cael ei ddefnyddio gan 17 o'r 18 o ysbytai a adolygwyd gennym, ond dim ond 10 sy'n ei ddefnyddio ar gyfer yr holl arbenigaethau.
101. Mae'r Safonau'n datgan y dylai sefydliadau fonitro'r wybodaeth a drosglwyddir i sicrhau ei bod yn gywir, yn amserol ac yn ddarllenadwy. Mae pob un o ysbytai'r Bwrdd Iechyd wedi archwilio gwybodaeth ar gyfer rhyddhau cleifion am ansawdd ac amseroldeb yn y ddwy flynedd diwethaf. Yn ein hadroddiad ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol, cafwyd bod anawsterau tymor hir yng nghyswllt gwybodaeth ar gyfer rhyddhau ac argymhellwyd bod y Bwrdd Iechyd yn gwella ei drefniadau rhyddhau ac yn datblygu llythyrau hysbysu safonol ar gyfer rhyddhau i sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer trosglwyddo gofal rhwng meddygon ymgynghorol a meddygon teulu'n fwy effeithiol.
102. Yn ein harolwg, roedd 18 y cant o staff fferyllol, 18 y cant o feddygon a 45 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod y wybodaeth am feddyginiaethau a ddarperir i feddygon teulu wrth ryddhau cleifion o ansawdd uchel. Roedd hyn yn cymharu â 41 y cant o staff fferyllol, 30 y cant o feddygon a 43 y cant o nyrsys ledled Cymru. Felly roedd barn fferyllwyr yn y Bwrdd Iechyd am ansawdd y wybodaeth ar gyfer rhyddhau cleifion a ddarperir i feddygon teulu'n negyddol iawn.



- 
- 103.** Yn y Bwrdd Iechyd, mae 19 y cant o wardiau'n cynhyrchu crynodebau electronig ar gyfer rhyddhau cleifion. Mae hyn yn cymharu â 34 y cant yng Nghymru gyfan. Yn Ysbyty Bronglais maent yn argraffu'r crynodeb ar gyfer rhyddhau fel y gall y fferylllydd wirio'r manylion, er mai dim ond ar gyfer cleifion llawfeddygol y gwneir hyn. Anfonir copi wedyn at y meddyg teulu a'r fferyllfa gymunedol yr un pryd â rhyddhau'r claf. Mae hyn yn gweithio'n dda a byddai'r Bwrdd Iechyd yn hoffi ei roi ar waith yn ehangach.
- 104.** Byddai'r Bwrdd Iechyd yn hoffi cyflwyno dull rhyddhau cwbl electronig fel y system Medicines Transcribing and e-Discharge (MTeD). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgynghori â meddygon teulu ynghylch pa wybodaeth yr hoffent ei chael gan yr ysbytai. Fodd bynnag, mae rhai ysbytai heb Wi-Fi o hyd ac mae hyn yn rhwystro rhag cyflwyno dulliau electronig.
- 105.** Cawsom wybod am rai o'r camau gweithredu ar gyfer helpu i ryddhau cleifion. Yn Ysbyty Glangwili mae system tracio presgripsiynau sy'n galluogi staff y wardiau i weld yn syth ar sgrin gyfrifiadur beth sy'n digwydd ynghylch meddyginiaethau sydd i fynd allan cyn rhyddhau cleifion. Roedd un ward yn dynodi'r cleifion a oedd yn defnyddio system monitro dosau er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n barod wrth eu rhyddhau. Mae'n cymryd amser hir i drefnu systemau monitro dosau, felly roedd y ward yn rhoi 48 awr o rybudd i'r fferyllfa cyn rhyddhau'r cleifion.
- 106.** Wrth ryddhau claf o'r ysbyty, gall staff wneud cais am gynnal Adolygiad Meddyginiaethau wrth Ryddhau (AMWR) gan y fferylllydd cymunedol yn fuan wedi i'r claf fynd adref. Pwrpas AMWR yw sicrhau bod newidiadau ym meddyginiaethau cleifion a gyflwynwyd yn yr ysbyty'n parhau fel y bo'n briodol yn y gymuned. Mae'r adolygiadau hefyd yn sicrhau bod cleifion yn cael cymorth i gadw at eu rheolwaith meddyginiaethau. Mae adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau yng Nghymru wedi amcangyfrif bod pob AMWR yn costio £68.50 a bod AMWRau yn ad-dalu tua 3:1 ar y buddsoddiad drwy osgoi ymbresenoli mewn adrannau achosion brys, derbyn cleifion i ysbytai a gwastraffu meddyginiaethau.<sup>35</sup> Er ei bod yn ymddangos bod AMWRau yn effeithiol, yr hyn y maent yn ei wneud yn y bôn yw cywiro materion sydd wedi codi yn ystod cyfnod gofal y claf. Gellid dadlau y byddai'n well gwario'r arian sy'n talu am AMWRau cyn cyrraedd y pwynt hwn er mwyn atal materion o'r fath rhag codi fel bod angen eu cywiro, er enghraifft drwy rannu gwybodaeth well a mwy amserol ar adeg trosglwyddo gofal rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Yn y Bwrdd Iechyd roedd 1,108 o AMWRau wedi'u cynnal yn 2013-14 ar gost o tua £76,000<sup>36</sup>.
- 107.** Roedd y Bwrdd Iechyd wedi talu am 18 o AMWRau am bob 1,000 o gleifion a ryddhawyd o'r ysbyty. Mae hyn yn cymharu â chyfradd gyfartalog o 14 o AMWRau am bob 1,000 o gleifion a ryddhawyd drwy Gymru gyfan. Yn y gwahanol fyrddau iechyd, roedd y gyfradd yn amrywio rhwng naw a 21 o AMWRau am bob 1,000 o gleifion a ryddhawyd o'r ysbyty.<sup>37</sup> Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cofnodi nifer yr atgyfeiriadau am AMWR yn y gymuned sydd wedi'u gwneud gan staff gofal eilaidd. Dim ond dau fwrdd iechyd yng Nghymru sy'n coladu'r wybodaeth hon.

---

<sup>35</sup> Prifysgol Caerdydd, *Evaluation of the discharge medicines review service*, Mawrth 2014

<sup>36</sup> Rydym wedi cyfrifo'r gost hon drwy luosi nifer yr AMWRau a gyflawnwyd â £68.50.

<sup>37</sup> Rydym wedi defnyddio nifer y cleifion a ryddhawyd yn 2013-14 o ysbytai aciwt yn enwadur yn y paragraff hwn.

---

## Stiwardiaeth wrthficrobaidd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau da o sawl math i wella'r defnydd o feddyginiaethau gwrthficrobaidd

- 108.** Mae ymwrthedd i wrthfotigau wedi cynyddu yng Nghymru.<sup>38</sup> Mae'r cynllun gweithredu i Gymru gyfan ar stiwardiaeth wrthficrobaidd yn cyfeirio at y pwysigrwydd o hyrwyddo rhagnodi gwrthficrobaidd da drwy archwilio. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi archwilio cost a nifer y pwyntiau gwrthficrobaidd ym mhob ardal, a'r gyberthynas rhwng arferion rhagnodi ac organeddau problemus mewn rhai ardaloedd. Nid yw'r dos dyddiol diffiniedig ac ymwrthedd gwrthficrobaidd wedi'u harchwilio eto. Mae tri bwrdd iechyd yng Nghymru wedi archwilio pob un o'r pum pwnc hyn ond dim ond un sydd wedi cymhwyso'r gwaith hwn at bob un o'i feysydd gwasanaeth. Nid oedd y canfyddiadau o'r archwiliadau hyn o fewn cwmpas ein harchwiliad.
- 109.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Pwyllgor Rheoli Gwrthficrobaidd yn is-grŵp i'r GRhM. Mae gan y Bwrdd Iechyd 0.5 o fferyllwyr gwrthfotig WTE ym mhob un o'r pedwar ysbyty aciwt. Fodd bynnag, mae cwmpas rôl y fferyllwyr gwrthfotig yn ehangach na'r lleoliad aciwt ac yn ymestyn i ofal sylfaenol ac, ar adeg ein harchwiliad, nid oedd y fferyllwyr hyn yn ymwneud yn gyfan gwbl â materion gwrthficrobaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar bob safle i gyflawni amcan y Prif Swyddog Meddygol ar stiwardiaeth wrthfotig ochr yn ochr â microbiolegwyr ymgynghorol. Maent yn canolbwyntio ar ostwng lefel yr heintiau *Clostridium difficile*. Yn Ionawr 2015, nid oedd y Bwrdd Iechyd o fewn cyrraedd y targed Haen Un ar gyfer lleihau nifer yr achosion o fewn 18 mis er ei fod wedi nodi ei fod yn disgwyl cyrraedd y targed erbyn Medi 2015.
- 110.** Mae fferyllwyr gwrthfotig y Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau ers eu penodi. Yn eu plith y mae cynhyrchu canllawiau cynhwysfawr ar driniaethau gwrthfotig ar gyfer pob rhan o'r Bwrdd Iechyd, gyda rhestr o wrthfotigau dan gyfyngiadau; a dosbarthu canllawiau cryno o faint cerdyn credyd i bob meddyg, ac i bob meddyg iau wrth ei sefydlu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu targed hefyd ar gyfer lleihau'r gwariant ar wrthfotigau mewn gofal eilaidd er mwyn arbed £50,000 erbyn diwedd 2014-15. Yn Awst 2014 nid oedd o fewn cyrraedd y targed ac roedd yn gorwario ar wrthfotigau.

---

<sup>38</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Antimicrobial resistance and usage in Wales (2005-2011)*, Tachwedd 2012.

# Rhan 5

---

## Monitro gwasanaethau fferyllol

Mae gwendidau mewn trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ar reoli meddyginiaethau ac mae staff fferyllol yn gorfod ymyrryd yn amlach na'r cyfartaledd i sicrhau diogelwch er bod trefniadau da at ei gilydd ar gyfer dysgu gwersi pan aiff pethau o chwith

### Adrodd ar berfformiad

Mae lle i gryfhau'r adrodd ar berfformiad drwy bennu a monitro dangosyddion perfformiad allweddol, meincnodi ac ystyried perfformiad yn fwy rheolaidd ar lefel pwyllgorau'r Bwrdd

111. Mae *Professional Standards for Hospital Pharmacy Standards* (y Safonau) yn datgan y dylid cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol a'u cyflwyno er mwyn gallu asesu perfformiad yn fewnol ac allanol. Dylid meincnodi perfformiad hefyd yn erbyn sefydliadau perthnasol eraill.
112. Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi gosod dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer rheoli meddyginiaethau ym maes gofal eilaidd. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig yn cael gwybodaeth sy'n ymwneud yn unig â rheolaeth ariannol ar y cynlluniau arbedion ar reoli meddyginiaethau. Mae lle i gryfhau'r adrodd a monitro ar berfformiad mewn cysylltiad â rheoli meddyginiaethau. Ni chawsom unrhyw dystiolaeth o feincnodi neu gymharu, nid yw nifer o'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu casglu bellach ac mae'r trefniadau ar gyfer craffu ar y wybodaeth yn ymddangos yn rhai *ad hoc*. Ategwyd y casgliad hwn gan ganlyniadau ein harolwg a oedd yn dangos bod 23 y cant o staff fferyllol yn cytuno â'r datganiad 'Rwyf yn cael cyfle'n rheolaidd i weld data sy'n ymwneud â pherfformiad y tîm fferylliaeth'. Mae hyn yn cymharu â 39 y cant yng Nghymru gyfan.
113. Roeddem wedi gofyn i fyrddau ieuchyd ddarparu enghreifftiau o'r ffordd yr oeddent yn monitro profiad y claf mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau. Nid oedd y Bwrdd lechyd wedi darparu unrhyw wybodaeth i ni am y ffordd y mae'n monitro profiad y claf.


## Ymyrryd i sicrhau diogelwch a derbyn cleifion am resymau sy'n ymwneud â meddyginiaethau

O'i gymharu â gweddiill Cymru, mae'r tîm fferylliaeth yn gorfod ymyrryd yn amlach i sicrhau diogelwch ynghylch meddyginiaeth cleifion

114. Mae'r gwaith o reoli meddyginiaethau'n set o brosesau cymhleth a gall pethau fynd o chwith ar nifer o gamau yn y prosesau hynny. Dylai byrddau ieuchyd ganolbwyntio'n llwyr ar sicrhau arferion diogel. Os nodir gwallau neu ddirgwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau, dylai byrddau ieuchyd weithredu'n bendant ac yn agored i ddysgu gwersi ac atal digwyddiadau rhag codi eto.
115. Yn ein harolwg, roedd 83 y cant o staff fferyllol, 74 y cant o feddygon a 73 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y 'Byddwn yn teimlo'n ddiogel wrth i'm meddyginiaethau gael eu rheoli yn yr ysbyty hwn'. Ledled Cymru, roedd 74 y cant o staff fferyllol, 64 y cant o feddygon a 78 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.

**116.** Pan aiff rhywbeth o'i le â meddyginiaeth rhywun, gall hynny fod yn achos uniongyrchol i'w dderbyn i ysbyty. Mae **Arddangosyn 19** yn dangos y canlyniadau o archwiliad cenedlaethol o gyfradd derbyn cleifion i ysbytai o ganlyniad i broblemau â'u meddyginiaeth. Mae'r gyfradd derbyn ar gyfer cleifion o'r fath yn y Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Cafwyd y data oddi wrth Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ond maent wedi'u cymhlethu gan y ffaith bod y timau codio yn defnyddio ffyrdd gwahanol o godio'r rhesymau dros dderbyn cleifion. Felly mae'n bosibl bod maint y broblem o dderbyn cleifion am resymau sy'n ymwneud â meddyginiaeth yn fwy na'r hyn sydd wedi'i ddatgan.

**Arddangosyn 19: Mae cyfran y cleifion sy'n cael eu derbyn am resymau sy'n ymwneud â meddyginiaethau ychydig yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan**



Canran y cleifion a dderbyniwyd am resymau sy'n ymwneud â meddyginiaeth

*Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Data, ar sail darparwr, rhwng 1/7/2012 a 31/6/2013.*

**117.** Roedd ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol hefyd wedi edrych ar nifer y cleifion a dderbyniwyd am resymau sy'n ymwneud â meddyginiaethau ac wedi canfod bod cyfran y cleifion a dderbyniwyd am resymau sy'n ymwneud â meddyginiaethau'n fwy o lawer nag yn yr arddangosyn uchod. Yn y Bwrdd Iechyd, barnwyd bod 11 y cant o gleifion a welwyd gan y tîm fferylliaeth wedi'u derbyn oherwydd mater sy'n ymwneud â meddyginiaeth<sup>39</sup>. Mae hyn yn cymharu â 10 y cant ledled Cymru. Ar sail y ffigurau hyn, yr amcangyfrif o'r gost am dderbyn cleifion oherwydd materion sy'n ymwneud â meddyginiaethau yn y Bwrdd Iechyd yn 2013-14 yw £3 miliwn<sup>40</sup>.

<sup>39</sup> Barnwyd bod cleifion wedi'u derbyn am resymau sy'n ymwneud â meddyginiaethau os oedd y diagnosis cyntaf a gofnodwyd yn cynnwys problem ddichonol â meddyginiaeth, gan gynnwys adwaith niweidiol i gyffuriau, diffyg cydymffurfio â chyfarwyddiadau, rhagnodi heb ei seilio ar dystiolaeth, gwall wrth ddsbarthu meddyginiaeth, cyngor gwael ynghylch meddyginiaeth etc.

<sup>40</sup> Roeddem wedi seilio hyn ar gost am dderbyn claf o £456, y ffigur sydd wedi'i ddiffinio yn nogfen Prifysgol Caerdydd *Evaluation of the Discharge Medicines Review Service*, Mawrth 2014. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod 60,137 o gleifion mewnol wedi'u derbyn yn 2013-14 (Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Craidd Swyddfa Archwilio Cymru). Un ar ddeg y cant o'r ffigur hwn yw 6,615.

- 
- 118.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â derbyn cleifion am resymau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ac mae wedi cynnal archwiliad yn Ysbyty'r Tywysog Philip sy'n dangos bod 50 y cant o gleifion sy'n dod i'r ysbyty o ganlyniad i syrthio'n debygol o gael eu haillderbyn i'r uned feddygol aciwt o fewn mis ar ôl cael cwmp mwy difrifol o bosibl. Un rheswm am hyn yw bod meddyginiaethau'n achosi pendro am eu bod yn cynnwys cyfryngau sy'n gostwng pwysedd gwaed uchel ond mae problemau hefyd ynghylch defnyddio pedair neu ragor o feddyginiaethau. Byddai'r Bwrdd Iechyd yn hoffi penodi fferyllydd i'r uned feddygol aciwt i adolygu achosion cleifion sydd wedi'u derbyn o ganlyniad i gwympiadau gan asesu meddyginiaethau'r cleifion hyn er na chytunwyd ar gyllid ar gyfer hyn.
- 119.** Un agwedd ar rôl y tîm fferylliaeth yw gwneud ymyriadau pwysig os oes risg i ddiogelwch y claf. Gall ymyriadau o'r fath i sicrhau diogelwch y claf fod yn angenrheidiol, er enghraifft, i sicrhau na fydd cyffuriau y mae gan glaf alergedd iddynt yn cael eu rhagnodi ar gyfer y claf hwnnw a sicrhau bod inswlin yn cael ei ragnodi'n gywir ar gyfer claf diabetig sy'n dibynnu ar inswlin. Yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol, roeddem wedi nodi 38 o achlysuron yn y Bwrdd Iechyd lle'r oedd timau fferylliaeth wedi ymyrryd am fod posibilrwydd y byddai rheolwaith meddyginiaethau'r claf yn achosi perygl mawr i'w ddiogelwch. Mae hyn yn gyfradd o chwe digwyddiad am bob 100 o gleifion a adolygwyd ac mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 4.1 digwyddiad am bob 100 o gleifion a adolygwyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y data hyn ymhellach a phenderfynu a ddylid dargyfeirio rhagor o adnoddau'r timau fferylliaeth at ddelio ag achosion sylfaenol ac atal gwallau a gwallau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, yn hytrach na'u cywiro ar ôl eu gwneud.


---

## Dysgu gwersi pan aiff pethau o chwith

Mae prosesau da ar waith ar y cyfan i ddysgu gwersi ar ôl gwallau mewn meddyginiaeth a methiant mewn systemau sy'n ymwneud â meddyginiaethau er ein bod wedi ein hysbysu bod rhai mathau o ddigwyddiadau nad ydynt yn cael eu cofnodi

**120.** Dylai byrddau iechyd adrodd ar bob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (NRLS) fel y gellir gwneud dadansoddiadau a chymariaethau cenedlaethol. Mae **Arddangosyn 20** yn dangos nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaeth a gofnodwyd fel canran o'r holl ddigwyddiadau a adroddwyd i'r NRLS.


**Arddangosyn 20:** Er 2008, mae cyfran y digwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaeth wedi gostwng. Mae'r gyfradd bresennol ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru



*Ffynhonnell: System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (NRLS), Bwrdd Comisiynu'r GIG, Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae'r data am 2014 yn cynnwys digwyddiadau a gofnodwyd cyn 31 Mawrth 2014.*

121. Mae **Arddangosyn 21** yn dangos y mathau o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaeth a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd i'r NRLS dros gyfnod o chwe blynedd hyd Fawrth 2014. Y categori digwyddiadau a oedd yn fwyaf cyffredin oedd 'Gweinyddu/cyflenwi meddyginiaeth o fan clinigol' ac mae hyn yn cynnwys pob cam yn y broses weinyddu rhwng adolygu'r presgripsiwn, dewis y feddyginiaeth gywir, adnabod y claf cywir a rhoi'r dos.

**Arddangosyn 21: Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau yn y Bwrdd Iechyd yn cael eu cysylltu amlaf â gweinyddu a chyflenwi meddyginiaethau o fannau clinigol**



*Ffynhonnell: NRLS, Bwrdd Comisiynu'r GIG, Awdurdod Iechyd Arbennig (1/4/2008 i 31/3/2014). Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y categorïau yn y ddolen ganlynol*  
[https://www.eforms.nrls.nhs.uk/staffreport/help/AC/Dataset\\_Question\\_References/Medicine\\_incident\\_details/MD01.htm](https://www.eforms.nrls.nhs.uk/staffreport/help/AC/Dataset_Question_References/Medicine_incident_details/MD01.htm)

122. Yn ein harolwg, roedd 74 y cant o staff fferyllol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod digwyddiadau/gwallau sy'n ymwneud â meddyginiaethau'n cael eu hadrodd a'u trafod yn briodol yn yr ysbyty hwn, o'i gymharu â 71 y cant ledled Cymru. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cytuno â'r datganiad bod gwybodaeth a geir drwy adroddiadau ar ddigwyddiadau/gwallau yn cael ei defnyddio i wneud gofal y claf yn fwy diogel, roedd 74 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf (o'i gymharu â 70 y cant ledled Cymru).

123. Mae'r tîm fferylliaeth yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod arferion meddyginiaeth diogel yn cael eu sefydlu yn y bwrdd iechyd. Mae'n bwysig bod y gwersi a ddysgir o wallau mewn meddyginiaeth a methiant systemau'n cael eu rhannu â'r tîm amlddisgyblaethol a'u defnyddio i wella ymarfer. Dywedwyd wrthym fod staff nyrsio a fferyllwyr yn hyderus wrth adrodd ar wallau mewn meddyginiaeth ac adweithiau niweidiol drwy ddefnyddio system cofnodi digwyddiadau Datix er bod staff meddygol yn llai tebygol o ddefnyddio Datix. Fodd bynnag, roedd cyfweiliadau â fferyllwyr uwch yn awgrymu nad yw gwallau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu cofnodi bob tro ar Datix. Gan



---

fod fferyllwyr yn ymyrryd yn gymharol aml (fel y mae [paragraff 119](#) yn dangos), dywedwyd wrthym na fyddai'r digwyddiadau hyn yn cael eu cofnodi ar Datix oni bai fod y digwyddiad yn annisgwyl.

- 124.** Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i bob digwyddiad a gofnodir ar Datix. Bydd fferyllwyr arweiniol ym mhob ysbyty'n adolygu'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau ac yn darparu cyngor a gwybodaeth ychwanegol i'r ymchwilydd arweiniol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â gwaith i weld pa feddyginiaethau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn ei holl ysbytai. Yn ein cyfweiliadau, dywedwyd wrthym fod Datix yn anhylaw ac yn anodd ei ddefnyddio i gynhyrchu adroddiadau lleol a allai ddangos patrymau er eu bod yn amlygu materion sy'n ymwneud â'r gwrthgeulyddion mwy diweddar.
- 125.** Gall rhai cleifion brofi effeithiau negyddol o gymryd eu meddyginiaeth sy'n cael eu galw'n adweithiau niweidiol i gyffuriau. Mae rhai adweithiau'n annisgwyl ond mae eraill yn bosibl eu rhag-weld. Mae Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol<sup>41</sup> wedi cyfrifo bod pedwar ym mhob 100 o ddyddiau gwely mewn ysbytai'n ganlyniad i adweithiau niweidiol i gyffuriau yn y Deyrnas Unedig. Yn y Bwrdd Iechyd, mae adweithiau niweidiol yn golygu cost o tua £6.1 miliwn y flwyddyn am ddyddiau gwely'n unig<sup>42</sup>.
- 126.** Pan fydd cleifion yn profi adweithiau niweidiol o ganlyniad i gymryd meddyginiaethau, dylai staff roi gwybod am y digwyddiadau hyn i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd drwy Gynllun y Cerdyn Melyn. Yn y Bwrdd Iechyd hwn yn 2013-14, roedd fferyllwyr a meddygon ysbytai wedi rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i'r un graddau, ac roedd nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill wedi cyfrannu i raddau llai. Yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol, nodwyd saith achlysur lle'r oedd timau fferylliaeth wedi adnabod symptomau o adweithiau niweidiol posibl i gyffuriau neu sgil-ffeithiau wrth adolygu achosion cleifion. Mae hyn yn gyfradd o 11 o ddigwyddiadau am bob 1,000 o gleifion a adolygwyd, bron dwywaith y gyfradd a welir ledled Cymru (chwe digwyddiad ym mhob 1,000 o gleifion a adolygwyd).
- 127.** Yn ein harolwg, roedd 48 y cant o staff fferyllol, 37 y cant o feddygon a 15 y cant o nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod y defnydd o Gynllun y Cerdyn Melyn yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn y Bwrdd Iechyd hwn. Mae hyn yn cymharu â 59 y cant o staff fferyllol, 31 y cant o feddygon a 29 y cant o nyrsys<sup>43</sup> ledled Cymru. Yn 2013 roedd y Bwrdd Iechyd wedi penodi'r Fferyllwyr Datblygu Clinigol Arweiniol yn hyrwyddwr Cynllun y Cerdyn Melyn i hybu'r defnydd o'r Cerdyn Melyn er mwyn rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Bellach mae hyrwyddwr ym mhob un o adrannau'r Bwrdd Iechyd sy'n addysgu meddygon ynghylch y pwysigrwydd o lenwi Cardiau Melyn. Er bod ein harolwg wedi canfod bod cyfran y meddygon yn y Bwrdd Iechyd sy'n credu bod Cynllun y Cerdyn Melyn yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol ychydig yn fwy na'r gyfran ar gyfer Cymru, mae'r gyfran gyffredinol yn fach. Mae'n bosibl bod cyfle i hyrwyddo Cynllun y Cerdyn Melyn ymhellach er mwyn cael mwy o gyfraniad gan nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
- 128.** Dylai pwyllgor diogelwch meddyginiaethau fod wedi'i sefydlu ym mhob corff iechyd. Dylai fod yn gr p aml-broffesiwn sy'n adolygu digwyddiadau lle cafwyd gwall mewn meddyginiaeth ac yn gwella diogelwch meddyginiaethau'n lleol<sup>44</sup>. Yn y Bwrdd Iechyd, ceir Gr p Adolygu Digwyddiadau Meddyginiaeth sy'n is-gr p i is-bwyllgor y GRhM. Nod y Gr p Adolygu Digwyddiadau Meddyginiaeth yw adolygu'r holl wallau a gwallau y bu ond y dim iddynt ddigwydd sy'n ymwneud â meddyginiaeth a

---

<sup>41</sup> Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol, *Protecting resources, promoting value: A doctor's guide to cutting waste in clinical care*, Tachwedd 2014.

<sup>42</sup> Mae data StatsCymru yn dangos mai cyfanswm y dyddiau gwely yn y Bwrdd Iechyd yn 2013-14 oedd 371,351 a chost un dydd gwely i glaf allanol yng Nghymru yw £413 ar gyfartaledd.

<sup>43</sup> Dywedodd 40 y cant o nyrsys nad oeddent yn gwybod.

<sup>44</sup> Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, *Improving medication error incident reporting and learning*, 20 Mawrth 2014

---

gofnodwyd: mae hyn yn cynnwys rhagnodi, paratoi, darparu a rhoi meddyginiaethau. Y bwriad yw atal gwallau neu wallau y bu ond y dim iddynt ddigwydd rhag codi eto. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd ac mae cynrychiolaeth gryf arno o blith fferyllwyr a nyrsys. Maent yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau drwy rannu negeseuon e-bost yn gyffredinol, a thrwy gylchlythyrau a llwybrau lledaenu gwybodaeth ar gyfer nyrsys a meddygon. Fodd bynnag, ar adeg ein harchwiliad, roedd y grŵp yn ei chael yn anodd denu cynrychiolaeth o blith meddygon. Gellir wynebu her wrth geisio ymgysylltu â nifer o broffesiynau a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar draws y Bwrdd Iechyd drwy grŵp sydd mor gyfyngedig ei aelodaeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddal sylw ar y grŵp hwn a pharhau â'i ymdrechion i recriwtio cynrychiolwyr meddygol.

# Atodiad 1

## Methodoleg

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys y dulliau canlynol:

Dull	Manylion
Offeryn rheoli meddyginiaethau craidd	Yr offeryn craidd oedd prif ffynhonnell y data ar lefel gorfforaethol y gofynnwyd i'r Bwrdd lechyd eu darparu. Roedd yr offeryn yn daenlen Excel.
Cais am ddogfennau	Roeddem wedi gwneud cais am oddeutu 24 o ddogfennau i'r Bwrdd lechyd ac wedi'u hadolygu.
Adolygiad o fferylliaeth glinigol	Cwblhawyd yr adolygiad o fferylliaeth glinigol gan y timau fferylliaeth ar y wardiau canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>Ysbyty Cyffredinol Bronglais – Ceredig Dwyrain, Uned Penderfyniadau Clinigol</li><li>Ysbyty Cyffredinol Glangwili – Uned Gofal y Galon, Derwen</li><li>Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg – Uned Penderfyniadau Clinigol Acíwt, Ward Un</li><li>Ysbyty'r Tywysog Philip – Uned Penderfyniadau Clinigol, Ward Un</li></ul> Bwriad yr offeryn oedd cofnodi gweithgarwch timau fferylliaeth yn ystod ymweliadau â wardiau.
Cyfweliadau	Roeddem wedi cyf-weld nifer bach o staff gan gynnwys: Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau, Arweinwyr Sirol ar Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau, Fferyllwyr Ysbyty, Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Nyrsio, a rheolwyr wardiau.
Cerdded drwodd	Roeddem wedi ymweld â'r holl ysbytai aciwt yn y Bwrdd lechyd gan arsylwi yn fferyllfa'r ysbyty. Roeddem hefyd wedi ymweld â'r wardiau canlynol i siarad â staff ac adolygu siartiau cyffuriau: <ul style="list-style-type: none"><li>Ysbyty Cyffredinol Bronglais – Ward Ceredig</li><li>Ysbyty Cyffredinol Glangwili – Ward Teifi, Uned Gofal y Galon</li><li>Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg – Uned Penderfyniadau Clinigol Acíwt, Uned Derbyn Meddygol</li><li>Ysbyty'r Tywysog Philip – Gofal am yr Henoed, Orthopedeg Ddewisol</li></ul>
Arolygon o staff meddygol a nyrsio	Roeddem wedi cynnal arolwg ar-lein o sampl o staff meddygol a nyrsio i ofyn eu barn am effeithiolrwydd wrth reoli meddyginiaethau yn y sefydliad. Cawsom 39 o ymatebion gan feddygon (26 ohonynt yn feddygon ymgynghorol). Ledled Cymru cawsom 413 o ymatebion gan feddygon. Yn y Bwrdd lechyd cawsom 56 o ymatebion gan nyrsys (a ledled Cymru cawsom 377 o ymatebion gan nyrsys).
Arolwg o staff fferyllol	Roeddem wedi cynnal arolwg ar-lein o staff fferyllol i ofyn eu barn am effeithiolrwydd wrth reoli meddyginiaethau yn y sefydliad. Cawsom 59 o ymatebion i gyd, gan 17 o staff yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, 22 yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, 9 yn Ysbyty'r Tywysog Philip ac 11 yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Ledled Cymru cawsom 407 o ymatebion gan staff fferyllol.
Defnyddio data a oedd ar gael	Defnyddiwyd ffynonellau data a oedd eisoes ar gael lle bynnag yr oedd modd, gan gynnwys data am ddogfenniadau o'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu, data o adolygiad Prifysgol Caerdydd o'r Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau ac ymarfer mapio GIG Cymru o adnoddau fferylliaeth yn 2014.

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)